# Agenda - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2015

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Ymchwiliad Etifeddiaeth: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(09.15 - 10.30) (Tudalennau 1 - 60)

Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Manon Antoniazzi, Cyfarwyddwr, Twristiaeth, Treftadaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru

Kate Clark, Cyfarwyddwr, CADW

Natasha Hale, Dirprwy Gyfarwyddwr Sectorau a Busnes, Llywodraeth Cymru

Linda Tomos, Cyfarwyddwr, Is-adran Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 61 - 73)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Egwyl (10.30 - 10.40)

5 **Ymchwiliad Etifeddiaeth: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth - trafod y dystiolaeth**
(10.40 - 10.50)

6 **Trafod y flaenraglen waith**
(10.50 - 11.10) (Tudalennau 74 - 88)

7 **Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): trafod yr adroddiad drafft**
(11.10 - 12.30) (Tudalennau 89 - 149)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MB/KS/5548/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Gorffennaf 2015

Annwyl Christine

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL – CYFRANOGIAD YN Y CELFYDDYDAU – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD 2015**

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol â chyfrifoldeb am graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r Celfyddydau a Diwylliant.

Yn ystod 2012/13, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau. Cyhoeddwyd adroddiad gan y Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad hwn ym mis Ionawr 2013. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad, a derbyniwyd pob un ohonynt, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor, gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd.

Rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw'r materion a godwyd yn yr adroddiad a gallaf gadarnhau fy mod wedi ymrwymo i symud ymlaen â'r argymhellion y cytunwyd arnynt. Rwyf am i Gymru fod y genedl fwyaf gweithgar a chreadigol yn y DU ac mae cynyddu lefelau cyfranogi yn y celfyddydau - a gweld pobl yn creu ac yn gwneud yn hytrach na bod yn sylwedyddion yn unig - yn allweddol i wireddu hyn. Rwy'n bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, i gynyddu lefelau cyfranogi yn y celfyddydau, ac i ennyn mwy o ddiddordeb ynddynt. Bydd hynny, yn ei dro, yn golygu bod pobl yn cymryd mwy o ran a bydd yn cefnogi datblygiad economi ffyniannus, gynaliadwy ar gyfer y celfyddydau.

Rwy'n ysgrifennu atoch yn awr i roi'r diweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu'r argymhellion hyn.

Un o brif argymhellion adroddiad y Pwyllgor oedd y dylid datblygu Cynllun Gweithredu hollgynhwysfawr i helpu Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i ganolbwyntio ar gynyddu lefelau cyfranogi. Cafodd y Cynllun Gweithredu hwn ei ddatblygu drwy gydweithio rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru â chydweithwyr yng Nghyngor

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Celfyddydau Cymru. Ceir crynodeb byr o'r cynnydd yn erbyn pob argymhelliad yn Atodiad 1, ac mae'r Cynllun Gweithredu llawn i'w weld yn Atodiad 2.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymgymryd ag ymchwil amrywiol iawn i effaith ac effeithiolrwydd ei bolisïau. Mae hyn yn cynnwys amryw o ddulliau arolygu, yn cwmpasu gwahanol sefydliadau celfyddydol yn ogystal â gwahanol gyfnodau o amser, er mwyn cael darlun mor agos â phosibl o'r tueddiadau cyfredol posibl.

O'r herwydd, efallai nad y Cynllun Gweithredu yw'r cyfrwng gorau ar gyfer darparu dadansoddiad ystadegol manwl o lefelau cyfranogi. Ar y llaw arall, mae'r Cynllun yn amlinellu'r dulliau a'r prosesau y bydd cynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn, ac mae'n rhoi trosolwg hefyd o'r cyfeiriad y mae polisïau yn ymwneud â lefelau cyfranogi yn symud iddo, fel ffordd o fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gynnydd yn y maes hwn.

Mae'r Cynllun Gweithredu llawn yn Atodiad 2 yn rhoi mwy o fanylion am y cynnydd yn erbyn pob argymhelliad. Er bod hon yn ddogfen bwysig, rwy'n ei ystyried yn bennaf, erbyn hyn, fel cyfrwng ar gyfer sicrhau bod y ffocws yn parhau ar gynyddu lefelau cyfranogi.

Gan mai dim ond ychydig mwy na 2 flynedd sydd ers i Adroddiad y Pwyllgor gael ei gyhoeddi, gellid dadlau ei bod hi'n rhy gynnar i weld a ydy'r mentrau polisi wedi gwneud gwahaniaeth parhaus i gynyddu lefelau cyfranogi. Ond, rwyf innau o'r farn eu bod wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer gwneud mwy o gynnydd yn y maes hwn, ac ar gyfer ei fesur.

Mae yna arwyddion, fodd bynnag, fod y dull wedi'i dargedu hwn o gynyddu cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth, a bu cynnydd yn y lefelau cyfranogi o 2012/13 hyd 2013/14. Soniais yn fras am hyn pan ymddangosais o flaen eich Pwyllgor ym mis Hydref y llynedd ac, yn Atodiad 3, amgaeaf ddata cychwynnol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar lefelau cyfranogi yn ystod 2013/14 (dyma'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd). Hyderaf y bydd yr ystadegau hyn yn eich calonogi.

Mae yna synergedd amlwg rhwng yr argymhelliad a amlinellir yn ymchwiliad y Pwyllgor i Gyfranogiad yn y Celfyddydau ac Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i Fynediad at Weithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru. Cafwyd cydnabyddiaeth o hyn yn argymhelliad 1 yr Adroddiad ar Gyfranogiad. Yn y gorffennol, rydym wedi darparu diweddariadau blynyddol am y cynnydd yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad i Fynediad ond, ar hyn o bryd, rwy'n ystyried sut y dylid gwneud hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

O ystyried bod prif argymhellion yr Ymchwiliad i Gyfranogiad eisoes wedi'i gyflawni drwy ddatblygu'r cynllun gweithredu sydd ynghlwm a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i brif ffrydio'r gofynion i ddatblygu polisïau sy'n rhoi blaenoriaeth i gyfranogiad gweithredol, nid wyf yn cynnig darparu diweddariadau blynyddol yn erbyn argymhellion yr Adroddiad hwn. Fodd bynnag, hoffwn eich sicrhau y bydd cynyddu lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

Yn gywir

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL AR GYFRANOGIAD YN Y CELFYDDYDAU

### Crynodeb o'r Cynnydd (Tachwedd 2014)

**Argymhelliad 1.** *Dylai Llywodraeth Cymru roi ar waith gynllun gweithredu ar gyfranogi, ochr yn ochr â'i gynllun (sic) gweithredu hygyrchedd, gyda'r diben o gynyddu lefelau cyfranogi ledled Cymru.*

**Argymhelliad 2.** *Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogi ar draws y celfyddydau, ynghyd â chamau gweithredu i ganfod anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol).*

Mae'r ddau argymhelliad wedi'u cyflawni; fel yr amlinellir uchod, mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu sy'n ein galluogi i ganolbwyntio ar gynyddu lefelau cyfranogi ymhlith pob grŵp yng Nghymru. Mae'n cynnwys mesurau i ganiatáu inni fonitro cynnydd, ac i ganolbwyntio ar feysydd o dangyflawni. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cynnig meincnod ar gyfer mesur llwyddiant mentrau polisi dros y blynyddoedd sydd i ddod.

**Argymhelliad 3.** *Yn ychwanegol at hygyrchedd a chydraddoldeb, dylai llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogi.*

Amlygwyd dymuniad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau fel thema allweddol yn y Llythyrau Cylch Gwaith blynyddol i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14, 2014-15 a 2015-16. Datblygwyd dangosyddion perfformiad penodol, er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn cael eu monitro gan fy swyddogion yn ystod Cyfarfodydd Monitro Chwarterol rhwng Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru ac Uwch-dîm Rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru. Ceir adroddiad ar gynnydd yn adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyngor Celfyddydau Cymru, ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 4.** *Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i sicrhau cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth a chydweithio ymhlith partneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.*

Mae hwn yn opsiwn y mae fy swyddogion yn parhau i ymchwilio iddo bob cyfle a gânt. Mae yna gydberthynas agos rhwng y blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer y celfyddydau a meysydd polisi cysylltiedig fel addysg, yr economi, llywodraeth leol a chymunedau a diddordebau diwylliannol ehangach yn fy mhortffolio fy hun, hy y diwydiannau creadigol, twristiaeth, yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Bydd gen i 'Grŵp y Celfyddydau a Chreadigrwydd' fy hun a fydd hefyd yn arwain yn y maes hwn drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

**Argymhelliad 5.** *Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru barhau i adolygu ei bolisïau ariannu, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu rhagoriaeth, tra'n cynyddu lefelau cyfranogi.*

Mae cynyddu lefelau cyfranogi yn parhau yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru. Er hynny, rwyf wedi bod yn gwbl eglur wrth Gyngor Celfyddydau Cymru fod angen iddynt barhau i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn dal i gael cyfleoedd o safon i gael cyfranogi yn y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

**Argymhelliad 6.** *Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau y gall sefydliadau gael mynediad at wybodaeth am ffynonellau ariannu eraill. Dylai hyn fod ar ffurf hyfforddiant, os oes angen.*

Mae atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau wedi dod yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth a osodir gan y llywodraeth neu ei asiantau; mae'r amser pan oeddem yn darparu arian i sefydliadau a'u gadael i weithredu o'u pen a'u pastwn eu hunain wedi hen ddarfod. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod hyn, ac yn ymateb yn unol â hynny. Mae'n gweithio'n agos gyda'i gleientiaid allweddol i'w hannog i feddwl fwy yn nhermau busnes ac i ddatblygu ffynonellau eraill o refeniw. Maent yn ymchwilio i ffynonellau llywodraeth, Ewropeaidd a phreifat er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i ddatblygu sector celfyddydau bywiog a chynaliadwy, gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd i gymryd rhan.

**Argymhelliad 7.** *Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn defnyddio ei berthynas â rhwydweithiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd sefydliadau perthnasol.*

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'i rwydwaith o gysylltiadau celfyddydol a diwylliannol i sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n parhau'n agored, a bod arferion da yn cael eu rhannu. Mae cysylltiadau Cyngor Celfyddydau Cymru ag awdurdodau lleol yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dal i fuddsoddi yn y berthynas hon; mae'n ceisio cydweithio mwy ag awdurdodau lleol, er mwyn helpu i liniaru effaith y toriadau i gyllidebau. Pan fo awdurdodau lleol yn gorfod torri cyllidebau'r celfyddydau, mae Llywodraeth Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu'n uniongyrchol i'w hannog i ystyried modelau cyflenwi eraill - gan gynnwys ymddiriedolaethau hyd braich fel ffordd o gynnal y gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn parhau i feithrin cysylltiadau â'r Trydydd Sector; ac mae'n gosod pwyslais arbennig ar sefydliadau yn darparu cymorth ac arweiniad i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, fel pobl anabl a chymunedau BME.

**Argymhelliad 8.** *Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi strategaeth ar waith i gynyddu lefelau ariannu gan fusnesau.*

Mae'n hynod bwysig bod sefydliadau yn parhau i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer ysgogi cyllid o ffynonellau allanol yn y sector preifat. Mae Celfyddydau a Busnes Cymru yn chwarae rôl ganolog yn y maes hwn ar hyn o bryd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb am fonitro ei gyllid ei hun a chyllid craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Celfyddydau a Busnes Cymru, ac mae'n gweithio'n agos gyda Celfyddydau a Busnes Cymru i lunio ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, mae effaith ein cyllid a pherfformiad Celfyddydau a Busnes Cymru yn gyffredinol yn cael eu hasesu, cyn gwneud unrhyw benderfyniad hirdymor ar sut fydd orau i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Annwyl Christine

28 Gorffennaf 2015

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mehefin yn gofyn am ddiweddariadau ar gynnydd gydag argymhellion gan y Pwyllgor yn fy mhortffolio.

Mae'r atodiadau wrth y llythyr hwn yn rhoi diweddariad ar bob un o'r argymhellion a dderbyniwyd neu a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru:

Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru – Atodiad 1
Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon – Atodiad 2
Polisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol – Atodiad 3
Cyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru – Atodiad 4
Uwch Gynghrair Cymru – Atodiad 5
Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru – Atodiad 6

Yours ever

Ken

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad 1**

## Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

**Argymhelliad 1 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

**Diweddariad:** Bydd adroddiad blynyddol, a fydd hefyd yn cynnwys llyfrgelloedd academaidd, yn cael ei lunio erbyn 30 Ebrill 2016 a bydd yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2015-Mawrth 2016.

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'n ganolog ddata wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ôl grwpiau demograffig.

**Diweddariad:** Rydym yn ceisio cynnwys y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2016-17 a fyddai wedyn yn darparu gwybodaeth am ddefnydd yn ôl ardaloedd daearyddol.

**Argymhelliad 3 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gydweithio â phartneriaid i ddatblygu diffiniad cyfoes o wasanaethau llyfrgelloedd "comprehensive and efficient" i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Dylai'r cyfryw ddiffiniad gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd, a ddylai barhau i fod am ddim yn ein barn ni.
**Diweddariad:** Mae darparu mynediad am ddim at y Rhyngrwyd wedi'i gynnwys yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17 fel un o'r hawliau craidd. Rydym yn ystyried y newidiadau deddfwriaethol mwy hirdymor a fyddai'n ofynnol i ddatblygu Deddf Llyfrgelloedd newydd i Gymru.

**Argymhelliad 4 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried datblygu cynllun achredu gwirfoddol ar gyfer llyfrgelloedd unigol yng Nghymru.

**Diweddariad:** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fodd bynnag, Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fydd y dull ar gyfer cyflawni'r cam gweithredu hwn.

Mae tri o argymhellion (4, 8 a 9) yr *Adolygiad Arbenigol* wedi cael eu cwblhau sy'n symud y mater hwn yn ei flaen. Cyhoeddwyd darn o waith ymchwil a oedd yn adolygu sefyllfa bresennol llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau (gwirfoddolwyr) yng Nghymru. Wedi hyn cyhoeddwyd *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru* ym mis Mai 2015, y cytunwyd arnynt gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r *Canllawiau* yn ceisio sicrhau y dylai llyfrgelloedd o'r fath fod yn ymegnïo i gyflawni'r 18 hawl graidd yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd):** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd.

**Diweddariad:** Roedd yn ofynnol i geisiadau am gyllid cyfalaf yn 2015-16 gan Raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru gefnogi gwasanaethau wedi'u cydleoli. Mae'n debygol y bydd yr amod hwn yn parhau mewn cylchoedd cyllido yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6 (Derbyniwyd):** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cymorth parhaus a'r canllawiau angenrheidiol ar gael er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.

**Diweddariad:** Cyhoeddwyd ymchwil a oedd yn adolygu sefyllfa bresennol llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau (gwirfoddolwyr) yng Nghymru *(Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru)*. Wedi hyn cyhoeddwyd *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru* ym mis Mai 2015.

Hefyd, mae pecyn cymorth ar lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau wedi cael ei gynhyrchu gan CBS Conwy mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac mae ar gael i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth yn seiliedig ar arfer da o ran sut i ddatblygu a chynnal llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.

**Argymhelliad 7 (Derbyniwyd):** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cymorth a chanllawiau digonol yn parhau i fod ar gael er mwyn i awdurdodau lleol nodi a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael.

**Diweddariad:** Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a dolenni defnyddiol wedi cael ei llunio ac mae ar gael i staff llyfrgelloedd yng Nghymru.

**Argymhelliad 8 (Derbyniwyd):** Argymhellwn, er y dylai gwasanaethau craidd llyfrgelloedd barhau am ddim, y dylai'r Gweinidog ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol yr holl opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn i lyfrgelloedd godi refeniw.

**Diweddariad:** Anogir yr holl wasanaethau llyfrgell yng Nghymru i ddatblygu partneriaethau sy'n cefnogi cost gwasanaethau statudol craidd, gan gynnwys rhannu adeiladau a staff rhwng gwasanaethau cymunedol gwahanol.

**Argymhelliad 9 (Derbyniwyd):** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn well.

**Diweddariad:** Mae *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, strategaeth llyfrgelloedd bresennol Cymru, yn cynnwys 'Denu'r Gynulleidfa' fel maes gwaith. Caiff y maes gwaith hwn ei arwain gan dîm yn CBS Wrecsam ac mae'n rhoi cymorth i'r holl wasanaethau llyfrgell yng Nghymru. Mae gweithgareddau'n cynnwys cydgysylltu digwyddiadau cenedlaethol, hyrwyddo mentrau, ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, ffeithluniau, datblygu staff, cydgysylltu'r gwaith o hyrwyddo gwasanaethau dros Gymru, a chyfrannu i wefan Llyfrgelloeddcymru.org.

**Argymhelliad 10 (Derbyniwyd):** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i fynd ar drywydd yr achos dros gael arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau cynyddol sydd gan staff llyfrgelloedd yng Nghymru i gefnogi'r broses o gyflwyno diwygiadau lles digidol yn bennaf.

**Diweddariad:** Mae trafodaethau parhaus yn dal i gynorthwyo llyfrgelloedd i ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â chynhwysiant digidol.

## Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon

**Argymhelliad 1 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar y cyd a gynhyrchwyd gan Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei roi ar waith. Dylai hyn gynnwys canlyniadau y cytunwyd arnynt y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant y cynllun.

**Diweddariad:** Rydym yn mynd i'r afael â gweithgarwch corfforol yn benodol trwy'r Grŵp Gweithredol Gweithgarwch Corfforol a arweinir gan y Gweinidog sy'n ceisio gwella lefelau gweithgarwch yng Nghymru trwy ddull cydgysylltiedig, trawslywodraethol; gan weithio gyda sefydliadau partner megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Mae'r Grŵp wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun gweithgarwch corfforol ar gyfer Cymru gyfan, gan adeiladu ar waith Creu Cymru Egnïol, a gafodd gefnogaeth lawn gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2014.

Mae Cyfarwyddwr Rhaglen Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cael ei benodi gan y grŵp yn ddiweddar i gefnogi gwaith y Grŵp Gweithredol Gweithgarwch Corfforol ac yn benodol y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun gweithredu. Bydd y rôl hefyd yn golygu bod angen i'r unigolyn ddatblygu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

Mae Chwaraeon Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru wedi datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n dangos ymrwymiad gan y ddau sector i ddod ynghyd i hybu ffyrdd iachach o fyw a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru.
Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – a fydd yn cwmpasu'r tair blynedd nesaf i ddechrau – yn nodi chwe maes ar gyfer cydweithredu sy'n cynnwys:

- cydweithio i gynorthwyo pobl Cymru i fwynhau bywydau mwy egnïol, mwy cyfartal ac iachach
- gweithio i annog pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain a thrwy hynny ofalu am iechyd cenedlaethau'r dyfodol
- gweithio i feithrin perthynas gydgynhyrchu gyda phobl Cymru
- cydweithio i gefnogi'r ymgyrch dros newid torfol yn ffordd y cyhoedd o feddwl am eu hiechyd
- cyfnewid gwybodaeth sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr
- ceisio datblygu meysydd gwaith ar y cyd sy'n hyrwyddo 'chwaraeon i bawb' ac yn ysgogi cyfranogiad ar draws y rhychwant oes.

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o'r holl ffynonellau data presennol sy'n mesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gan gynnwys y dull a ddefnyddir yn arolygon Chwaraeon Cymru. Dylai adolygiad y Gweinidog ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pryderon am y diffyg data ar sut y mae amddifadedd, demograffeg, nodweddion gwarchodedig a rhwystrau diwylliannol yn effeithio ar lefelau cyfranogiad. Dylid adlewyrchu unrhyw welliannau sy'n ymwneud â gwaith Chwaraeon Cymru yn ei Lythyrau Cylch Gwaith blynyddol yn y dyfodol.

**Diweddariad:** Rydym bellach wedi datblygu arolwg unedig, cenedlaethol a fydd yn cynnwys Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid eraill ac yn ymgorffori data ar oedolion egnïol i roi darlun mwy cyflawn. Mae Chwaraeon Cymru, fel darparwr gwybodaeth ystadegol, wedi chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu cwestiynau am chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Bydd yr

arolwg cenedlaethol yn cael ei gynnwys fel blaenoriaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru 2016-2020.

**Argymhelliad 3 (Derbyniwyd):** O ran cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru a sefydliadau perthnasol i nodi dull amgen a mwy effeithiol o gasglu data ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon o fewn y cymunedau hyn.

**Diweddariad:** Bydd yr arolwg cenedlaethol newydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ffyrdd mwy effeithiol o gasglu data ar lefelau cyfranogiad o fewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau pan ddefnyddir y dull hwn o ystyried maint cymharol fach poblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio gyda'r tasglu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu rhwydweithiau yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi comisiynu ymchwil i ganfod y rhwystrau i gyfranogiad mewn chwaraeon gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae pob un o'r rhwydweithiau wedi cael 'cyllid ysgogi' sydd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad chwaraeon ar lawr gwlad o fewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Cynhaliodd Rhwydwaith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd ymarfer tasg a gorffen i gael dealltwriaeth well am y rhwystrau sy'n atal menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhag cyfranogi mewn chwaraeon.

Bydd hyn yn flaenoriaeth yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru 2016-2020.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddiffinio a chyhoeddi'r canlyniadau a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant ei Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a'i Strategaeth Tlodi Plant. Rydym hefyd yn argymell bod trefniadau cadarn yn cael eu gwneud i fonitro a gwerthuso llwyddiant y Strategaethau hyn, ac i ddeall eu heffaith ar lefelau cyfranogiad.

**Diweddariad:** Mae Chwaraeon Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Chwaraeon Cymunedol newydd a danategir gan **fframwaith buddsoddi seiliedig ar ganlyniadau.** Bydd y fframwaith newydd hwn yn rhoi lle blaenllaw i anghenion y cyfranogwr a'r darpar gyfranogwr yn ein gwaith cynllunio. Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno bydd yr holl bartneriaid yn cael eu mesur ar sail eu cyfraniad i gyflawni'r **3 chanlyniad allweddol yma:**

- cynyddu amlder y cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon - 'Wedi Gwirioni ar Chwaraeon'
- targedu anghydraddoldebau mewn cyfranogiad a rhoi mwy o gymorth i'r rhai sy'n profi rhwystrau i gyfranogiad rheolaidd
- datblygu a gwella'r 'Llwybr Chwaraeon' fel ei fod yn darparu cyfleoedd o ansawdd da i bawb ac yn galluogi ein hathletwyr mwyaf dawnus i wireddu eu potensial.

Mae'r tri 'nod' allweddol yma'n cael eu datblygu yng nghyd-destun y nodau sydd wedi'u cynnwys yn 'Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' sy'n sail i lythyr cylch gwaith presennol Chwaraeon Cymru.

Bydd **model darparu diwygiedig** yn cael ei gyflwyno hefyd ochr yn ochr â'r fframwaith buddsoddi newydd hwn. Bydd cydweithio effeithiol o fewn y sector yn ganolog i'r dull a ddefnyddir gan y model, gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oll yn cydweithio i gael yr effaith fwyaf posibl ar chwaraeon, gan greu sector chwaraeon cysylltiedig, rhywbeth sy'n eisiau o'r model darparu presennol. Bydd yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob partner ac yn

ceisio gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u sgiliau ac, yn bwysig, bydd yn ceisio creu model hirdymor, cynaliadwy.

Bydd Strategaeth Tlodi Plant bresennol Chwaraeon Cymru yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso tuag at ddiwedd 2015. Un o ganlyniadau hirdymor y strategaeth yw: Gweld cynnydd mewn cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, gan gyfrannu at ein dyhead ehangach o gael pob plentyn a pherson ifanc wedi gwirioni ar chwaraeon am oes.

Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru yw'r mwyaf o'i fath yn y byd. Ers 2011, mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi bod yn casglu gwybodaeth am amlder y cyfranogiad, gan eu galluogi i ymchwilio i'r nifer o weithiau yr wythnos y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden wedi'u trefnu, y tu allan i'r cwricwlwm.

Yn yr arolwg, mae 'Cael prydau ysgol am ddim' yn cael ei ddefnyddio fel mesur procsi o statws economaidd-gymdeithasol plant ysgol yng Nghymru. Gan ddefnyddio data a ddarperir gan Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru, mae ysgolion yn yr arolwg yn cael eu gosod mewn chwartel Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd). Mae chwartel PYADd 1 yn cynnwys canran isel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae chwartel PYADd 4 yn cynnwys canran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys, ac y gellir ystyried bod lefel eu hamddifadedd cymharol yn uwch. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y ganran o'r disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl y chwartel PYADd y maent ynddo.

| | 2011 | 2013 | % y Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **PYADd 1** | 34 | 46 | +12 |
| **PYADd 2** | 29 | 41 | +2 |
| **PYADd 3** | 24 | 39 | +15 |
| **PYADd 4** | 25 | 35 | +10 |

Mae'r data'n dynodi bod cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y plant difreintiedig sy'n cyfranogi mewn chwaraeon. Mae Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015 yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae'r canlyniadau'n debygol o gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

**Argymhelliad 6 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i sefydlu rhaglen i nodi ac yna mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad mewn chwaraeon sy'n benodol i bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau hyn.

**Diweddariad:** Mae Chwaraeon Cymru ar fin cyhoeddi adroddiad ar y rhwystrau i gyfranogiad gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn chwaraeon. Mae'r adroddiad, a luniwyd gan Brifysgol Leeds, yn cynnwys archwiliad ansoddol o'r heriau a wynebir gan aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru o ran cael mynediad at chwaraeon a chyfranogi mewn chwaraeon. Bydd Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag arweinwyr cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ganfod sut y gellir gweithredu ar ganlyniadau'r ymchwil hon ar lefel gymunedol.

**Argymhelliad 7 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu gwella lefelau cyfranogiad ymhlith pobl mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn gynnwys cyfres o ganlyniadau y gellir eu mesur.

**Diweddariad:** Mae hwn yn un o amcanion cydraddoldeb Chwaraeon Cymru, a chan hynny mae camau gweithredu wedi cael eu cynnwys yng nghynllun gweithredu ar gydraddoldeb Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid Galw am Weithredu a datblygu rhwydweithiau

pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae cyfranogiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn chwaraeon yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer grantiau Chwaraeon Cymru fel rhan o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac mae Chwaraeon Cymru wedi gwahodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i arwain darn o waith i ddatblygu Cynllun Busnes, a fydd yn argymell dull (Fframwaith) o hyrwyddo chwaraeon, cynyddu cyfranogiad a gwella mynediad at chwaraeon o fewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd perchnogaeth gymunedol a chynaliadwyedd yn brif ffocws. Bydd y fframwaith yn ystyried dealltwriaeth a gafwyd trwy'r Ymchwil Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a bydd yn myfyrio ar y seilwaith presennol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi sefydlu grŵp llywio lefel uchel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fudiadau'r Sector Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, YMCA a'r Sector Chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru wedi pennu graddfa amser i gwblhau'r gwaith hwn erbyn 1 Medi 2015.

**Argymhelliad 8 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod rhagor o waith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dylai hyn gynnwys gwaith ymchwil i'r mathau o chwaraeon neu weithgareddau sy'n apelio i ferched yn benodol, a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu cyfranogiad.

**Diweddariad:** Mae tîm ymchwil Chwaraeon Cymru wedi llunio ffeithlen ar y data ynghylch cyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon i ategu'r meini prawf ar gyfer Galwadau am Weithredu. Mae'r ffrwd ariannu hon yn blaenoriaethu cymorth i fenywod a merched, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl ac ardaloedd amddifadus. Mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi £2.35 miliwn mewn cyllid Galw am Weithredu eleni, gan gynnwys:

- Girl Guiding Cymru (prosiect cenedlaethol) - £240,439
- Beicio Cymru (prosiect cenedlaethol) - £249,342 i annog menywod o bob oed i feicio
- Gymnasteg Cymru (yng Nghaerdydd) - £157,089 i annog merched o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyfranogi mewn gymnasteg
- Us Girls Wales (menter a gyflawnir gan StreetGames) -£690,000.

Gyda'r £690,000 y byddant yn ei gael, mae StreetGames yn bwriadu sefydlu mudiad 'Us Girls' ledled Cymru, gan gyflawni rhaglen newydd a chyffrous sydd wedi'i bwriadu i gynyddu ymgysylltiad merched a menywod ifainc 13-19 oed anegnïol a lled anegnïol sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Bydd Rhaglen Us Girls Wales yn cydweithio'n agos gyda Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu rhwydwaith amrywiol o sefydliadau i helpu i annog 5,000 o ferched ledled Cymru i fod yn egnïol dros y ddwy flynedd nesaf.

**Argymhelliad 10 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog a Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i gynyddu a gwella mynediad at gyfleusterau hamdden ledled Cymru.

**Diweddariad:** Yn dilyn Cynhadledd Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Hamdden ar gyfer Gweithgarwch Corfforol ar 18 Medi 2014, rydym wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i liniaru effeithiau colli canolfannau chwaraeon a hamdden. Fel rhan o hyn, fe lansion ni Becyn Cymorth Trosglwyddo Asedau Cymunedol i Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol ar 26 Chwefror 2015. Hefyd, ym mis Mawrth 2015, lansiwyd Cynllun Peilot newydd gwerth £5 miliwn i ddarparu Benthyciadau Cyfalaf Cyfleusterau Chwaraeon i awdurdodau lleol adnewyddu cyfleusterau chwaraeon a hamdden neu ddatblygu rhai newydd.

Hefyd, mae Chwaraeon Cymru mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i sefydlu "Gweledigaeth ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon yng Nghymru". Caiff y gwaith ei gefnogi gan y swyddogion o awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol. Mae hefyd yn cefnogi gwaith Grŵp Cyfleusterau

Chwaraeon Cydweithredol Cymru (Undeb Rygbi Cymru, Hoci Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru) mewn perthynas â gweledigaeth ar gyfer Caeau Pob Tywydd yng Nghymru.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae disgwyl i adroddiad terfynol arno gael ei greu yn ystod haf 2015. Diben craidd y gwaith hwn yw:

- Darparu gweledigaeth a rhesymeg eglur ac egwyddorion arweiniol i gefnogi'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden gorfforol yng Nghymru fel bod tirwedd o gyfleusterau sy'n briodol, yn addas ar gyfer y diben, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gynaliadwy yn gallu cael ei chreu.
- Cydnabod y materion y mae darparwyr a chyrff cyllido yn eu hwynebu yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu cyfleusterau hanfodol h.y. defnyddio buddsoddiadau 'gwario i arbed'; trosglwyddiadau asedau; a chael mynediad at arian cyfalaf
- Darparu negeseuon ac offer i gynorthwyo gwleidyddion a phenderfynwyr i oleuo polisïau trawslywodraethol
- Adnabod gofynion ar gyfer gweithredu pellach a gweithredu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11 (Derbyniwyd):** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Nofio Am Ddim er mwyn nodi ardaloedd lle mae'r nifer sy'n manteisio arno yn isel a'r rhesymau am hyn, ac yn adrodd yn ôl i ni ar ei ganfyddiadau.

**Diweddariad:** Rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Chwaraeon Cymru i adolygu'r Fenter Nofio Am Ddim gyda golwg ar wella'r nifer sy'n ei defnyddio a'i chost-effeithiolrwydd. Yn dilyn yr adolygiad, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ystyriaeth i adroddiad y Grŵp Campau Dŵr, sy'n grŵp ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Chwaraeon Cymru, Nofio Cymru a rhai awdurdodau lleol, a phenderfynodd y dylai'r fformwla ariannu gael ei ddiwygio. Fe wnaed hyn er mwyn targedu plant mewn ardaloedd amddifadus yn fwy effeithiol.

**Argymhelliad 12 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):**
Rydym yn argymell hefyd bod y Gweinidog yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amrywiad yn y ddarpariaeth o nofio am ddim ledled Cymru. Dylai'r Gweinidog hefyd gyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant dan 11 oed sy'n gallu nofio.

**Diweddariad:** Mae cerdyn adrodd newydd ar gyfer Campau Dŵr wedi cael ei ddatblygu gan y Grŵp Campau Dŵr i Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-18 sy'n blaenoriaethu'r canlynol:

- Gwneud pob plentyn yn Nofiwr erbyn iddynt adael CA2 (%) – Wedi'i fesur gan ddefnyddio Fframwaith Dysgu Nofio Pasbort Dŵr Cymru – Lefel 4 – 90% erbyn 2018
- Pob plentyn yn CA2 yn dysgu nofio trwy wersi nofio o ansawdd da
- Adnoddau wedi'u cysoni ar draws y Fenter Nofio Am Ddim, addysg a hamdden
- Darpariaeth ac asesu cyson gan ddefnyddio Fframwaith Dysgu Nofio Cymru ledled Cymru
- Bydd darparu'r meini prawf gofynnol ar gyfer y Fenter Nofio Am Ddim yn dal i'w gwneud yn bosibl i gyfleoedd nofio mwy strwythuredig barhau

**Atodiad 3**

## Polisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol

**Argymhelliad 1(Derbyniwyd)**: Cyn bwrw ymlaen ag unrhyw uno sy'n ymwneud â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r pryderon a godwyd gan dystion arbenigol yn ystod ein hymchwiliad.

**Diweddariad:** Ar 14 Ionawr 2014 yn y Siambr, cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd ei benderfyniad i beidio ag uno Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Wrth wneud ei benderfyniad, rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad *Dyfodol ein gorffennol*. Rhoddodd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a fynegwyd gan dystion ac aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ystod ei ymchwiliad.

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd)**: Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau i gryfhau statws Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys eu rhoi ar sail statudol.

**Diweddariad:** Un o ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu cofnod o'r amgylchedd hanesyddol a'i ddiweddaru'n gyson, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth person neu sefydliad arall.

**Argymhelliad 3 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau i symleiddio'r system rhestru.

**Diweddariad:** Roedd yr ymgynghoriad, *Dyfodol ein gorffennol*, yn cynnwys chwech o gynigion ar gyfer gwelliannau i'r broses o roi caniatâd adeilad rhestredig. Nid oedd consensws ymhlith yr ymatebion i'r ymgynghoriad o ran y gwelliannau y mae eu hangen. I helaethu'r dystiolaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad, rhoddodd Cadw gomisiwn i Hyder Consulting Ltd i gynnal astudiaeth: 'Mireinio'r broses caniatâd adeilad rhestredig', i archwilio cryfderau a gwendidau'r broses bresennol. O ganlyniad i'r astudiaeth hon, mae polisi, cyngor a chanllawiau newydd wedi cael eu datblygu sy'n ategu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ac a fydd yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a pherchnogion i baratoi ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a phenderfynu'n gyflymach arnynt. Bydd y nodyn cyngor technegol drafft ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a'r canllawiau ynghylch rheoli newid i adeiladau rhestredig ac ymgeisio am ganiatâd adeilad rhestredig, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil, yn gwneud y broses yn fwy hyblyg ac eglur.

**Argymhelliad 4 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn defnyddio ac yn gorfodi rheolau sy'n ymwneud â rhestru yn gyson.

**Diweddariad:** Fel rhan o'r pecyn o fesurau i ategu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) mae drafft o'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol ym Mholisi Cynllunio Cymru, nodyn cyngor technegol drafft a chanllawiau drafft ynghylch rheoli newid i adeiladau rhestredig wedi cael eu cyhoeddi. Bydd y dogfennau hyn o gymorth i gael mwy o gysondeb ledled Cymru. Ar ben hynny, mae rôl arolygwyr adeiladau hanesyddol rhanbarthol Cadw yn ceisio meithrin dull cyson o reoli adeiladau rhestredig ledled Cymru. Mae Cadw hefyd yn lletya'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig sy'n dwyn ynghyd swyddogion cadwraeth o awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r fforwm hwn yn gyfle i bartneriaid gyfnewid safbwyntiau ar bynciau/materion a chytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol. Cynrychiolir Cadw yn fforymau'r swyddogion cadwraeth rhanbarthol hefyd ac mae hyn eto'n ei gwneud yn bosibl rhannu arfer da a syniadau ac yn helpu i feithrin dull mwy cyson ar gyfer materion megis camau gorfodi.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio dewisiadau i gyflwyno amserlen statudol ar gyfer adolygu eiddo neu adeiladau rhestredig, gan ystyried cynaliadwyedd a defnydd.

**Diweddariad:** Cwblhawyd ail-arolwg Cymru gyfan o adeiladau rhestredig yn 2005. Roedd hwn yn ymarfer cynhwysfawr i ddiweddaru'r rhestrau o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yng Nghymru, gan ddefnyddio ymgynghorwyr arbenigol i gynnal asesiadau yn ôl meini prawf cyson. Nid oes cynlluniau ar gyfer ail-arolwg llawn pellach a fyddai'n adnodd-ddwys ac yn ddrud iawn. Fodd bynnag, mae mecanweithiau i'w cael i ychwanegu adeiladau at y Rhestr (trwy hap-restru), a hefyd i'w tynnu oddi arni (trwy ddadrestru). Mae swyddogion yn Cadw yn parhau i ymateb i geisiadau i adolygu penderfyniadau yn y gorffennol ynghylch rhestru yng ngoleuni tystiolaeth newydd.

**Argymhelliad 6 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau i gyflwyno system sy'n golygu pan fydd chwiliadau gan awdurdodau lleol yn dangos bod adeilad wedi"i restru a/neu mewn ardal gadwraeth, bod y perchennog newydd yn cael canllawiau clir gan yr awdurdod lleol ynghylch y cyfyngiadau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y statws rhestredig.

**Diweddariad:** Mae Cadw yn paratoi dogfen gyfarwyddyd a fydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo perchnogion i ddeall arwyddocâd eu hadeiladau a'u cyfrifoldebau. Bydd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol fynediad at y ddogfen hon, a byddant yn cael eu hannog i'w lledaenu i berchnogion newydd.

**Argymhelliad 7 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system i gael gwybod adeg gwerthu/trosglwyddo, a dorrwyd rheoliadau adeilad rhestredig o gwbl a chasglu gwybodaeth am gyflwr yr adeilad.

**Diweddariad:** Mae mecanweithiau eisoes yn bodoli i alluogi awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru i gadarnhau pa un a fu unrhyw achos o dorri un o'r rheoliadau adeiladau rhestredig. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymweld ag adeiladau rhestredig gyda darpar brynwyr i roi sicrwydd y cafwyd yr awdurdodiad cywir ar gyfer unrhyw waith.
Gallant godi tâl am wasanaeth o'r fath ar hyn o bryd gan fod adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn amodi y gall awdurdod godi tâl ar rywun am ddarparu gwasanaeth ar ei gyfer -
(a) os yw'r awdurdod wedi'i awdurdodi i ddarparu'r gwasanaeth (ond bod dim gofyniad iddo wneud hynny); ac
(b) os yw'r unigolyn wedi cytuno y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

**Argymhelliad 8 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyflwyno mecanwaith sy'n sicrhau, yn dilyn gwaith i adeilad rhestredig, y dylid cynnal arfarniad adeilad rhestredig cyn pen cyfnod penodol.

**Diweddariad:** Mae'r broses caniatâd adeilad rhestredig wedi'i bwriadu i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid i adeiladau rhestredig sy'n diogelu eu cymeriad fel adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Wrth roi caniatâd, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i osod amodau sy'n angenrheidiol, yn berthnasol, yn orfodadwy, yn fanwl ac yn rhesymol. Mae'r cyfrifoldeb ar y perchennog i wneud y gwaith yn unol ag amodau'r caniatâd, gan y bydd methiant i wneud hynny'n drosedd. Pan fyddant yn wynebu achos o dorri rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau rhestredig, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried a ydynt yn mynd i gymryd camau gorfodi ynteu erlyn, ynteu'r ddau.

**Argymhelliad 9 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gyflwyno cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol, fel y cânt eu diogelu'n llawn yn y system gynllunio.

**Diweddariad:** Mae un o'r darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i greu a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru.

**Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn yn llawn erbyn hyn.**

**Argymhelliad 10 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru roi mecanweithiau ar waith i sicrhau cydweithrediad gwell wrth hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol.

**Diweddariad:** Roedd Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn nodi bod cyfranogiad, dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o dreftadaeth, a gwireddu budd economaidd trwy dwristiaeth yn ddau faes blaenoriaeth a all gefnogi datblygu cynaliadwy a chyfleoedd bywyd gwell, a chyfrannu at ddyheadau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi. Mae ein grŵp rhanddeiliaid ar yr amgylchedd hanesyddol yn fforwm ardderchog ar gyfer cydweithio ar y themâu hyn. Mae partneriaid allweddol ar y grŵp hwn yn cynnwys Amgueddfa Cymru, y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y maent i gyd yn rhan o wneud yr amgylchedd hanesyddol yn hygyrch ac yn symbylol i ymwelwyr.

Mae nifer o fesurau penodol i drawshyrwyddo safleoedd treftadaeth eraill wedi cael eu rhoi ar waith yn barod, gan gynnwys:

- ➢ cynnwys adeiladau nad ydynt yng ngofal Cadw ar daflenni Cadw;
- ➢ defnyddio gwefan Cadw a'r cyfryngau cymdeithasol; teithlenni i annog pobl i ymweld â safleoedd eraill, cyfagos; hyrwyddo i'r fasnach deithio yn ogystal â'r cyhoedd;
- ➢ cydweithio ar sioeau haf ac ymgyrchoedd hyrwyddo arbennig gan gynnig disgowntiau cilyddol i ymwelwyr â safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd.

Mae mentrau eraill yn cynnwys:

- Drysau Agored – gweithio gydag ystod o gyrff, grwpiau a pherchnogion i ganiatáu mynediad ar gyfer y cyhoedd at yr adeiladau hanesyddol nad ydynt fel arfer yn hygyrch, neu sydd fel arfer yn codi tâl mynediad. Yn 2014, fe wnaeth y fenter Drysau Agored, a oedd yn cael ei rhedeg yn fewnol am y tro cyntaf, gynnal 1,000 o ddigwyddiadau mewn 343 eiddo yng Nghymru, gan ddenu 34,000 o ymwelwyr a'r digwyddiadau'n cael eu hwyluso gan 2,500 o wirfoddolwyr.
- Menter hyrwyddo twristiaeth ac ymchwil i ymwelwyr ar y cyd â Croeso Cymru.
- Digwyddiadau – Mae Cadw yn rhedeg mwy na 500 o ddigwyddiadau a diwrnodau allan ledled Cymru, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogol ar safleoedd ac mewn sioeau haf, teithiau, sgyrsiau, hanes byw a pherfformiadau byw.

**Argymhelliad 12 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar bosibilrwydd sefydlu sefydliad treftadaeth cenedlaethol ar sail aelodaeth, er mwyn hyrwyddo safleoedd hanesyddol.

**Diweddariad:** Mae gan Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sylfaen aelodaeth eang yn barod. Maent mewn trafodaethau gweithredol i gytuno sut y gallant gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig. Mae ein grŵp rhanddeiliaid ar yr amgylchedd hanesyddol yn dwyn ynghyd y sefydliadau hyn a sefydliadau cenedlaethol neu ranbarthol eraill sydd â rhan i'w chwarae – megis Croeso Cymru, Amgueddfa Cymru, Glandŵr Cymru, y Parciau Cenedlaethol,

Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Comisiwn Brenhinol ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru – gydag ymrwymiad i hyrwyddo'r sector, ennyn ymgysylltiad y cyhoedd, dwyn budd i grwpiau ac amgueddfeydd lleol, a darparu cydgymorth a gweithgarwch trawshyrwyddo. Mae Argymhelliad 14 yn ymdrin â sefydlu cynghrair treftadaeth anffurfiol a fydd hefyd yn hyrwyddo safleoedd yn gadarnhaol.

**Argymhelliad 13 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cadw yn rhoi blaenoriaeth i hygyrchedd i'w safleoedd a sicrhau bod ei ddull gweithredu yn gyson.

**Diweddariad:** Mae Cadw yn parhau i gymryd camau i sicrhau bod safleoedd hanesyddol yn hygyrch ac yn bleserus o safbwynt corfforol a deallusol fel lleoedd i ymweld â hwy ar gyfer ymwelwyr a phobl sy'n byw yng Nghymru. Mae hefyd yn targedu cynulleidfaoedd anodd i'w cyrraedd. Mae enghreifftiau o waith sy'n mynd rhagddo'n cynnwys:

- Darparu cyfleusterau sy'n cefnogi ymwelwyr â nodweddion gwarchodedig megis anabledd neu oedran.

- Mynediad am ddim neu am gyfradd ostyngol i safleoedd Cadw ar gyfer ystod o grwpiau – gan gynnwys pobl â phroblemau corfforol, synhwyraidd ac iechyd meddwl, a'u gofalwyr (13,520 o ymwelwyr yn 2014-15), dinasyddion hŷn (119,149 o ymwelwyr yn 2014-15) ac ymweliadau dysgu (89,174 o ymwelwyr yn 2014-15).

- Ymchwil i ymwelwyr – i ddeall proffil, agweddau a chymelliadau ei sylfaen ymwelwyr bresennol. Mae hyn yn goleuo polisi Cadw ar fynediad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

- Mae Cadw yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gweithredu dros Blant i ddileu rhwystrau ariannol i ymweld â safleoedd sydd yng ngofal Cadw i blant a'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt, trwy roi mynediad am ddim i deuluoedd maeth trwy gynllun aelodaeth teuluoedd maeth. Nod y cynllun yw helpu pobl ifanc ddifreintiedig i ddeall eu treftadaeth a diwylliant lleol a chenedlaethol – a defnyddio rhai o safleoedd treftadaeth mwyaf aruthrol Cymru i ymlacio, gwneud gwaith therapiwtig, cynnal digwyddiadau a chael hwyl.

- Y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth – sy'n gwella mynediad, dealltwriaeth a mwynhad trwy ddarparu cyfleusterau modern i ymwelwyr a darpariaeth ddehongli gyfoes gan ddefnyddio technolegau newydd, celf ac ailgreadau hanes byw. Mae'r ddarpariaeth ddehongli newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ymweliadau a gweithgareddau teuluol, gyda darpariaeth ychwanegol ar gyfer partïon ysgol a diddordebau arbenigol. Mae prosiectau mawr yn cynnwys Palas yr Esgob yn Nhyddewi, cestyll Harlech, Caernarfon a Dinbych a Gwaith Haearn Blaenafon.

- Yng Nghastell Harlech, mae pont 45 metr, sy'n cysylltu'r teras newydd i ymwelwyr â phorthdy'r castell, wedi cael ei gosod. Mae'r bont wedi ei gwneud yn bosibl cael mynediad gwastad i'r porthdy, gan ei gwneud yn bosibl cael mynediad at y castell yn y ffordd y'i bwriadwyd gyntaf pan y'i hadeiladwyd 600 mlynedd yn ôl.

- Rhaglen o ddigwyddiadau sydd wedi'i bwriadu i apelio at ymwelwyr ychwanegol a'u denu i'r safleoedd.

**Argymhelliad 14 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar bosibilrwydd sefydlu corff ymbarél cynrychioladol, fel English Heritage, i gynrychioli sefydliadau anllywodraethol yn y trydydd sector a'r sector preifat.

**Diweddariad:** Cafodd dadansoddiad o strwythur, cadernid a chapasiti'r trydydd sector yng Nghymru ac ymchwiliad i'r potensial ar gyfer strwythurau cymorth newydd, megis rhwydwaith treftadaeth ar gyfer Cymru ar sail aelodaeth wedi'i gomisiynu gan Cadw, ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2014. Roedd yr adroddiad yn argymell sefydlu 'cynghrair anffurfiol' o sefydliadau trydydd sector ac yn nodi angen i swyddogion datblygu gefnogi ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladu.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru, trwy Cadw, yn ariannu Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu Grŵp Treftadaeth newydd i Gymru. Mae Cadw hefyd wedi bod yn trafod cynigion i swyddogion datblygu rhanbarthol gefnogi Ymddiriedolaethau Cadwraeth Adeiladu presennol yng Nghymru a helpu i sefydlu rhai newydd gyda Chymdeithas Ymddiriedolaethau Cadwraeth Adeiladu'r DU a phartneriaid allweddol eraill. Rhagwelir mai penllanw hyn fydd cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri maes o law.

## Cyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru

**Argymhelliad 1 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru roi ar waith gynllun gweithredu ar gyfranogi, ochr yn ochr â'i gynllun gweithredu hygyrchedd, gyda'r diben o gynyddu lefelau cyfranogi ledled Cymru.

**Diweddariad:** Cytunwyd ar fersiwn derfynol o'r Cynllun Gweithredu ym mis Medi 2013. Mae'r gwaith yn dal i gael ei fonitro mewn Cyfarfodydd Monitro Chwarterol. Bwriedir adrodd yn flynyddol ar gynnydd wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd):** Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i fonitro lefelau cyfranogi ar draws y celfyddydau, ynghyd â chamau gweithredu i ganfod anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth (e.e. oherwydd rhesymau daearyddol, economaidd neu gymdeithasol).

**Diweddariad:** Mae gwaith monitro Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ar hyn o bryd yn cynnwys:

1. Yr Arolwg o Sefydliadau Refeniw, lle mae'n cyhoeddi adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar lefelau presenoldeb a chyfranogi gan ei sefydliadau refeniw.
2. Yr Arolygon Omnibws Oedolion a Phlant, a gynhelir yn flynyddol.
3. Monitro prosiectau a gyllidir gan y Loteri yn chwarterol, gan gynnwys gweithgarwch cyfranogol.
4. Adolygiad Celfyddydau Cymru – arolwg ar raddfa fawr o gyfranogiad a phresenoldeb yn y celfyddydau ledled Cymru, a gynhelir bob pum mlynedd.

Mae CCC wedi datblygu system newydd i fonitro gweithgarwch a ariennir gan brosiectau sydd hefyd yn gallu adrodd ar fanylion daearyddol, economaidd a chymdeithasol.

**Argymhelliad 3 (Derbyniwyd):** Yn ychwanegol at hygyrchedd a chydraddoldeb, dylai llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru gynnwys pwyslais ar gynyddu lefelau cyfranogi.

**Diweddariad:** Fel yn 2013-14, mae'r Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2014/15 yn amlygu'r angen i barhau ag ymdrechion i gynyddu lefelau cyfranogi, er gwaethaf yr anawsterau a achosir gan yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a phwysau ar gyllid. Mae cynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau'n dal i fod yn un o'r gofynion sefydlog yng nghytundeb ariannu CCC gyda'i Sefydliadau Refeniw.

**Argymhelliad 4 (Derbyniwyd):** Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau i sicrhau cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth a chydweithio ymhlith partneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

**Diweddariad:** Mae swyddogion yr Economi Greadigol (Y Celfyddydau) wedi cwblhau ymarfer ar y cyd gyda chydweithwyr mewn Adrannau eraill, i adnabod mentrau presennol a newydd sy'n cefnogi, neu a allai gefnogi lefelau cyfranogi uwch yn y celfyddydau.

Mae gwaith yn parhau o fewn Cadw, trwy fentrau megis y cynllun Artist Preswyl. Yn yr un modd mae Amgueddfa Cymru yn rhedeg gweithgareddau cyfranogol yn ystod gwyliau ysgol i annog pobl ifanc i ddatblygu diddordeb yn y celfyddydau a diwylliant.

Mae CCC wedi rhoi comisiwn i Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i ymgymryd â rhaglen sydd wedi'i bwriadu i gynyddu a chynnal gweithgareddau celfyddydau gwirfoddol mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae'r gyfradd sy'n cymryd rhan yn isel.

Mae CCC hefyd yn cyflawni ei raglen 'Momentwm' mewn partneriaeth gyda thîm Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru; nod y rhaglen hon yw ennyn ymgysylltiad pobl ifanc – nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o hyn – â'r celfyddydau.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd):** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru barhau i adolygu ei bolisïau ariannu, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu rhagoriaeth, tra'n cynyddu lefelau cyfranogi.

**Diweddariad:** Mae staff CCC yn adolygu ac yn adrodd wrth yr is-adran sy'n ei noddi ac wrth Gyngor CCC yn chwarterol ar hyn o bryd, ac yn cwblhau adolygiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Argymhelliad 6 (Derbyniwyd):** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau y gall sefydliadau gael mynediad at wybodaeth am ffynonellau ariannu eraill. Dylai hyn fod ar ffurf hyfforddiant, os oes angen.

**Diweddariad:** Mae gwybodaeth am ymddiriedolaethau a sefydliadau wedi'i chynnwys yng nghanllawiau ariannu CCC, sydd ar gael ar ei wefan. Mae CCC yn rhedeg cymorthfeydd ariannu ledled Cymru gan roi gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth mewn perthynas â chael mynediad at ei arian Loteri.

Mae CCC yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r cymorthfeydd ariannu hyn i gynnwys mwy o wybodaeth am ffynonellau cyllid eraill.

Mae Cynllun Datblygu Sefydliadau Refeniw CCC ar gyfer 2014-15 yn cynnwys meithrin galluoedd a chodi arian.

Darparodd CCC wybodaeth yn ddiweddar ar gyfer Cangen y Celfyddydau am enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau gan nifer o'i Sefydliadau Refeniw.

Mae ArtWorks Cymru, a ariennir gan Sefydliad Paul Hamlyn, wedi bod yn brosiect llwyddiannus iawn, gan ddatblygu sgiliau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau celfyddydau cyfranogol. Mae CCC a Paul Hamlyn yn cefnogi estyniad i'r prosiect.
Mae CCC hefyd yn cefnogi prosiect cyfranogol i bobl hŷn, mewn partneriaeth ariannu gyda Sefydliad Baring.

**Argymhelliad 7 (Derbyniwyd):** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau ei fod yn defnyddio'i berthynas â rhwydweithiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd sefydliadau perthnasol.

**Diweddariad:** Mae CCC wedi ymrwymo i gytundeb gwasanaeth gyda Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i ddarparu ac ehangu "Rhedeg Eich Grŵp", adnodd ar y we i sefydliadau celfyddydau gwirfoddol.

Mae CCC yn parhau i ariannu Celfyddydau Anabledd Cymru fel un o'i Sefydliadau Refeniw. Mae CCC hefyd yn parhau i fod â pherthynas weithio gref gyda Diverse Cymru ac Age Concern.

Bydd *'Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau: Cynllun Gweithredu i Gymru'*, a ddeilliodd o Adolygiad Smith o'r Celfyddydau mewn Addysg, yn gwneud cyfraniad pwysig i gyflawni'r amcan hwn. Mae'r Cynllun yn ymwneud â rhaglen sy'n werth £20 miliwn dros 5 mlynedd, gyda'r broses o'i chyflwyno mewn ysgolion yn dechrau o fis Medi 2015.

**Argymhelliad 8 (Derbyniwyd):** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi strategaeth ar waith i gynyddu lefelau ariannu gan fusnesau.

**Diweddariad:** Bu CCC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol Celfyddydau a Busnes Cymru ar gyfer 2014/15-16. Ar gyfer y flwyddyn nesaf mae CaBC wedi cael gwahoddiad i ddatblygu cynllun busnes sy'n golygu llai o ddibyniaeth ar gymhorthdal. Mae cryn dipyn yn dibynnu ar hyn, gan mai dyma'r corff arweiniol ar gyfer nawdd gan fusnesau ar gyfer y celfyddydau.

Mae CCC wedi cynnal seminarau amrywiol a oedd yn cynnwys siaradwyr amlwg dan ei Raglen Datblygu Cadernid, e.e. ar arweinyddiaeth a dyngarwch trwy dechnoleg.

Mae CCC wedi rhoi grant i blatfform DONATE i addasu ei dechnoleg ar-lein ar gyfer Cymru, e.e. i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg.

Mae CCC wedi rhoi grant Ymchwil a Datblygu i ymgeisydd sy'n ceisio datblygu'r dechnoleg ar gyfer lefi tocynnau ar-lein at ddibenion dyngarol.

Yn ei 'Sgyrsiau', mae CCC wedi rhedeg gweithdai ar gyllid torfol ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd. Mae CCC hefyd yn gweithio gydag orielau masnachol a chymorthdaledig i ddatblygu ei *'Gynllun Casglu'*, i gynyddu gwerthiant gweithiau celf.

## Uwch Gynghrair Cymru

**Argymhelliad 1 (Derbyniwyd):** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ddatblygu dull cydgysylltiedig o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog Chwaraeon adrodd yn ôl i'r Cynulliad am gynnydd y trafodaethau.

**Diweddariad:** Yr haf hwn, bydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn lansio gweledigaeth a chynllun strategol ar gyfer pêl-droed yn 2020, sef "Mwy na gêm", sy'n disgrifio ei nodau uchelgeisiol ar gyfer pêl-droed ar ôl ymgynghori'n helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol. Mae'r ddogfen yn disgrifio 6 nod uchelgeisiol eang.
Mae Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru wedi lansio ei chynllun corfforaethol ei hun (2015-2020) i gefnogi ei chyfraniad tuag at gyflawni'r strategaeth drosfwaol ar gyfer pêl-droed. Dau o'r chwe chanlyniad allweddol yw 'trosglwyddo cymunedau trwy bêl-droed i bawb' a 'gêm ddomestig gryfach a chynaliadwy'.
Mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi cefnogaeth mewn egwyddor dros 4 blynedd i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn seiliedig ar y Cynllun Corfforaethol a'i nodau uchelgeisiol, gyda chenhadaeth i roi cymorth i wireddu'r weledigaeth ar gyfer pêl-droed trwy dyfu'r gêm a chodi safonau. Pedwar cam gweithredu allweddol i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yw:

1. Adnabod, datblygu a pharatoi chwaraewyr ifainc dawnus ar gyfer pêl-droed ryngwladol;
2. Sicrhau bod gan bêl-droed weithlu gwirfoddol a phroffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac yn perfformio'n uchel i gynhyrchu mwy o chwaraewyr a'r rheiny'n chwaraewyr gwell;
3. Tyfu'r gêm trwy gyfleoedd chwarae mwy hygyrch a hyblyg a defnyddio grym pêl-droed i wella canlyniadau addysg, hyfforddiant ac iechyd i gymunedau ledled Cymru;
4. Amcanu at weithredu o fewn ein gwerthoedd sefydliadol a chyrraedd safonau rhagorol mewn gwasanaeth cwsmeriaid.

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd):** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru edrych sut y gall clybiau Uwch Gynghrair Cymru helpu i gyflawni amcanion polisi ehangach ac edrych ar y gefnogaeth, ariannol ac ymarferol, sydd ar gael i'r clybiau i'w galluogi i wneud hynny.

**Diweddariad:** Yn 2013 fe lansiodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru Brosiect 3G a fydd yn arwain at fuddsoddi tua £5m mewn cyfleusterau 3G yng nghlybiau Uwch Gynghrair Cymru. Maes 3G yw'r sbardun i ddatblygu'r model lle mae'r clwb yn ganolfan i'r gymuned gan greu clybiau mwy cynaliadwy â gweithlu mwy proffesiynol a mwy o ymgysylltiad â'r gymuned. Mae'n rhaid i glybiau sy'n ymgeisio gyflwyno achos busnes cadarn cyn cael unrhyw fuddsoddiad ac mae staff Cymdeithas Bêl-droed Cymru / Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i'r clybiau gyda'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes. Mae staff yn ymwneud yn arbennig â datblygu cynlluniau defnydd realistig sy'n cefnogi'r nodau strategol ar gyfer Pêl-droed yng Nghymru, sef cynyddu cyfranogiad a lleihau anghydraddoldeb.
Mae pedwar prosiect wedi cael eu cwblhau hyd yma ac mae staff yn rhan o fonitro a chefnogi cynnydd y cyfleusterau hyn er mwyn diogelu'r buddsoddiad a chael yr enillion gorau posibl arno. Mae pum prosiect arall yn yr arfaeth ar gyfer 2016.

Mae hyn, mewn rhai ffyrdd, yn ymgysylltiad anuniongyrchol gan fod Llywodraeth Cymru yn ariannu Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru trwy Chwaraeon Cymru; fodd bynnag, mae'n cael effaith uniongyrchol ar welliant parhaus clybiau Uwch Gynghrair Cymru.

**Argymhelliad 4 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru er mwyn datblygu strategaeth i amlinellu ei gweledigaeth o glybiau Uwch Gynghrair Cymru fel canolfannau cymunedol, er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad ac ehangu cyfranogiad.

**Diweddariad:** Caiff hyn ei nodi yn strategaeth 2020 ac mae'n un o nodau allweddol y Prosiect 3G a ariennir gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ac sy'n amcanu at ddatblygu meysydd 3G sy'n gysylltiedig â chlybiau Uwch Gynghrair Cymru.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu caeau 3/4G ledled Cymru.

**Diweddariad:** Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru a Hoci Cymru wedi ffurfio'r Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Cydweithredol ac wedi datblygu gweledigaeth strategol ar y cyd ar gyfer datblygu caeau pob tywydd ledled Cymru. Mae Gweledigaeth a Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Caeau Pob Tywydd wedi cael eu comisiynu gan y grŵp hwn sy'n cynrychioli Cyrff Llywodraethu Rygbi, Pêl-droed a Hoci yng Nghymru. Fe'i paratowyd i helpu i oleuo dulliau a phenderfyniadau yn y dyfodol yng Nghymru, gan Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysgol, y Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a'u Clybiau a Chwaraeon Cymru.

**Argymhelliad 8 (Derbyniwyd):** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych sut y gellir defnyddio'r system academi i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad.

**Diweddariad:** Mae adolygiad o Academïau wedi cael ei gwblhau a bydd yn cael ei ystyried gan Weithgor ar y cyd a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Gêm Gymunedol, Gêm Genedlaethol a Gêm Ryngwladol Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

**Argymhelliad 9 (Derbyniwyd):** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych a oes modd cynnig rhagor o gymorth ariannol i gefnogi pobl ifanc sy'n dymuno chwarae pêl-droed, ond sy'n cael anhawster i wneud hynny oherwydd y gofynion ariannol (e.e. costau prynu'r dillad, teithio ac ati).

**Diweddariad:** Mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi £100,000 ychwanegol yn Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i gefnogi cynlluniau buddsoddi rhanbarthol Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r canlyniad lefel uwch 'trawsnewid cymunedau trwy bêl-droed i bawb'. Mae targedau erbyn 2024 ar gyfer y canlyniad hwn fel a ganlyn:

- 50% o bobl ifanc yn chwarae pêl-droed unwaith yr wythnos;
- 20000 o chwaraewyr benywaidd wedi'u cofrestru;
- 30% o bobl ifanc yn chwarae pêl-droed o leiaf ddwywaith yr wythnos – 60000 o chwaraewyr cofrestredig;
- 1500 o chwaraewyr cofrestredig ag anabledd;
- 4% o chwaraewyr cofrestredig o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

## Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru

**Argymhelliad 2 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg annibynnol i fapio anghenion pobl Cymru o ran y cyfryngau. Dylai'r arolwg hwn lywio polisi ar y cyfryngau ar draws pob sector, gan gynnwys technolegau presennol a rhai sy'n datblygu.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol gydag Ofcom i sicrhau bod ei adolygiadau o farchnadoedd cyfathrebu ac – yn fwy diweddar – ei drydydd adolygiad o Ddarlledu Cyhoeddus yn darparu dadansoddiad manwl o ddefnyddio'r cyfryngau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a gofynion, gan gynnwys ar lefel Cymru. Rydym wedi ymateb yn adeiladol ac mewn manylder i bob ymgynghoriad ar yr adroddiadau hyn. Mae'r data hwn yn darparu gwybodaeth sylfaenol allweddol ar gyfer Cymru ac yn goleuo'r broses barhaus o ddatblygu polisi.

Rydym wedi pwysleisio'n arbennig yr angen i wella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y darlledwyr, a hefyd yr angen i'r corff rheoleiddio fod â dyletswydd benodol o ran polisi cyhoeddus mewn perthynas â llywodraethau datganoledig y DU. Ar y ddau fater yma, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud dros y 12 mis diwethaf. Cafodd ymrwymiadau i gryfhau'r rhan a chwaraeir gan Lywodraeth Cymru mewn penodiadau allweddol ac i sicrhau bod darlledwyr yn fwy atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cynnwys yn y Papur Gorchymyn ar Gytundeb Dydd Gŵyl Dewi; ac yng Nghynllun Blynyddol diweddaraf Ofcom mae bellach wedi ymestyn ei ddyletswydd polisi cyhoeddus i gynnwys y llywodraethau datganoledig.

**Argymhelliad 3 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cymryd rhan llawn a rhagweithiol ym mhroses y Bil Cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu anghenion Cymru

**Diweddariad:** Manteisiodd Llywodraeth Cymru ar bob cyfle i ddarparu mewnbwn o safbwynt Cymru. Er enghraifft yn ymateb Llywodraeth Cymru (Medi 2012) i seminar fel rhan o'r Adolygiad o Gyfathrebu gan Lywodraeth y DU, *Supporting growth in the radio (audio) sector*, fe ddynodon ni na fyddem am weld y rheolau lleolrwydd presennol yn cael eu llacio ymhellach na'u dileu. Fe nodon ni hefyd ei bod yn hanfodol bod lefel briodol o ddarpariaeth lleolrwydd yn enwedig newyddion lleol.

**Argymhelliad 4 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gryfhau'r cysylltiadau ar draws ei hadrannau i sicrhau y gellir cael y budd economaidd a diwylliannol mwyaf o sectorau'r cyfryngau.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth. Ers mis Medi 2014, mae'r diwydiannau darlledu a chreadigol bellach ill dau wedi'u lleoli o fewn yr un portffolio.

**Argymhelliad 5 (Derbyniwyd):** Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol arolygu'r mater o ddatganoli darlledu yng Nghymru yn barhaus a chynghori Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol.

**Diweddariad:** Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig datganoli unrhyw agwedd ar bolisi darlledu.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Silk 2 yn nodi bod ei argymhellion ynghylch datganoli elfen yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o gyllid S4C yn dwyn risgiau, oni bai fod mesurau diogelu sy'n ymwneud â'r cyllid cyffredinol parhaus ar gyfer y sianel

yn cael eu cyflwyno i gyd-fynd â hynny, gan gynnwys yng nghyd-destun newidiadau i'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu ar ôl 2017, yn dilyn adnewyddu'r siarter. Roedd Papur Gorchymyn Llywodraeth y DU ar Gytundeb Dydd Gŵyl Dewi yn nodi nad oedd consensws ar ddatganoli cyfrifoldeb am gyllid Llywodraeth y DU ar gyfer S4C i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gyson â'n tystiolaeth gychwynnol i Gomisiwn Silk.

**Argymhelliad 6 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocol gyda Llywodraeth y DU ar gyfer ymdrin â materion darlledu nas datganolwyd.

**Diweddariad:** Mae concordat Llywodraeth Cymru gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer yr holl faterion polisi sydd heb eu datganoli'n dal mewn bodolaeth. Hefyd, fesul achos unigol, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ffurfioli ei hymwneud â materion arwyddocaol (e.e. datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfranogi yn yr adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC).

**Argymhelliad 10 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac i Ofcom yn nodi mai darpariaethau presennol trwydded Sianel 3 ddylai fod y gofynion lleiaf ar gyfer adnewyddu'r drwydded.

**Diweddariad:** Fel a adlewyrchwyd yn ein hymateb i ymgynghoriad Ofcom yn 2013 ar drwydded Sianel 3, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod lefel bresennol y ddarpariaeth yn briodol, nac yn ddigonol hyd yn oed; safon isaf ydyw sydd prin yn llwyddo i gyflawni gofynion sylfaenol iawn o ran Darlledu Cyhoeddus. Diogelu'r ddarpariaeth bresennol ddylai fod wedi bod yr amod lleiaf ar gyfer adnewyddu trwydded Sianel 3. Fe hoffem weld cynnydd yn y ddarpariaeth a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym ni'n credu bod cynyddu'r ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol iach ITV plc ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 11 (Derbyniwyd mewn Egwyddor)**: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, ar adeg briodol, ar gyfer cyflwyno trwydded Sianel 3 sy'n benodol i Gymru.

**Diweddariad:** Fe groesawon ni'r penderfyniad i greu trwydded Sianel 3 ar wahân i Gymru, yr ydym ni'n credu y dylai adlewyrchu hunaniaeth Cymru mewn enw ac allbwn, fel y mae hi gyda'r trwyddedau Sianel 3 cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roeddem yn siomedig nad achubwyd ar y cyfle i gryfhau telerau'r drwydded, i warantu lefel uwch o wasanaeth i Gymru ac i ddiogelu'r gwasanaeth hwnnw pe bai unrhyw newid mewn perchnogaeth, ond rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddeialog adeiladol gydag Ofcom ac ITV i gynyddu i'r eithaf effaith y drwydded yng Nghymru.

**Argymhelliad 12(Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd i weithio'n fwy effeithiol gyda Channel 4 i gefnogi cwmnïau Cymru.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf, os yw Channel 4 yn cael cyllid cyhoeddus, y dylai fod yn ofynnol iddo gynhyrchu cyfran o gomisiynau ar gyfer y rhwydwaith yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau gyda'r gyfran honno o leiaf yn cyfateb i'r gyfran o'r boblogaeth. Mae hyn yn gwbl gyson â rôl Channel 4 o ran datblygu talent newydd ledled y DU. Roeddem yn siomedig nad oedd Ofcom yn cytuno â'n barn, a adlewyrchwyd yn ein hymateb i'w ymgynghoriad yn 2014, y dylai cwota Channel 4 ar gyfer cynyrchiadau y Tu Allan i Lundain gael ei weithredu erbyn 2016 yn hytrach na 2020. Ein barn ni o hyd yw y dylai Channel 4 allu cyflawni lefel newydd y cwota yn sylweddol cyn y terfyn amser yn 2020.

Yn hanesyddol, mae'r cynnwys y mae Channel 4 wedi'i gomisiynu o Gymru wedi bod yn brin iawn; mae gwariant Channel 4 yng Nghymru'n dal i fod islaw 1% o gyfanswm gwariant Channel

4 ar gynnwys ac nid oes gan y darlledwr, sydd wedi'i leoli yn yr Alban, unrhyw staff comisiynu yng Nghymru. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun ei darged presennol ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu y Tu Allan i Loegr, sydd wedi bod yn 3% am beth amser ac sydd wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar i 9% erbyn 2020. Pan lansiodd Channel 4 ei fentrau ar-lein 4IP i ddatblygu cyfleusterau newyddion a gwasanaethau cyhoeddus cymunedol ar-lein, fe wnaed ymdrechion sylweddol yng Nghymru i ddenu cyfran yn y rhaglen, ond heb lwyddiant.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus gyda Channel 4 ar Gronfa Alpha. Roedd hwn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu perthynas fwy strategol gyda Channel 4. Yn y pen draw fe hoffem weld presenoldeb parhaol gan Channel 4 yng Nghymru.

Mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a David Abraham, Prif Weithredwr Channel 4, wedi gohebu â'i gilydd ar y materion hyn a chawsant gyfarfod yng Nghaerdydd i'w trafod ymhellach ym mis Mehefin 2015. Yn dilyn cyfarfod cadarnhaol, cyflwynwyd Mr Abraham i nifer o gynhyrchwyr o Gymru a chafodd ddeialog adeiladol ynghylch datblygu perthnasoedd gweithio Channel 4 yng Nghymru.

**Argymhelliad 13 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith y toriadau yn y gyllideb ar y sector cynhyrchu teledu annibynnol yn barhaus a chanfod ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r sector.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynglŷn â'i phryderon ynghylch effaith y toriadau yn y gyllideb sy'n effeithio ar BBC Cymru Wales a S4C, yn ogystal ag effaith bosibl newidiadau i drefniadau comisiynu a'r dull o ddatblygu cynyrchiadau gan y darlledwyr mawr. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys y bygythiad posibl i swyddi a thwf yn yr is-sector annibynnol, y mae darlledwyr yn comisiynu nifer sylweddol o gynyrchiadau ganddo. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ag Ofcom dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod amodau trwydded ar gyfer y darlledwyr yn gwarchod buddiannau gwylwyr a busnesau yng Nghymru gymaint â phosibl, ac mae'n parhau i ymgysylltu'n agos â Llywodraeth y DU ar faterion allweddol megis yr adolygiad cyfredol o Siarter Frenhinol y BBC, a allai ddwyn goblygiadau arwyddocaol i Gymru.

Mae tîm sector y Diwydiannau Creadigol yn Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gefnogi'r gadwyn gyflenwi ar gyfer teledu yng Nghymru, trwy ddigwyddiadau rhwydweithio a datblygiad parhaus mentrau i wella a sefydlu sgiliau allweddol (e.e. y cynllun peilot llwyddiannus diweddar yn Stiwdio'r Bae yn Abertawe, a alluogodd unigolion dawnus i gysgodi arbenigwyr blaenllaw mewn rolau cynhyrchu allweddol ym myd teledu lle mae gennym ddiffyg capasiti yng Nghymru, gan eu galluogi i ennill y sgiliau a'r profiad y mae eu hangen i gyflawni'r rolau hyn yng Nghymru). Mae gwasanaeth lleoliad a chriw Sgrîn Cymru yn darparu gwasanaeth pwysig, sy'n gwella'n barhaus, ac sy'n helpu i sicrhau bod cynyrchiadau'n cael eu cyflawni mor gost-effeithiol â phosibl yng Nghymru, gan ddefnyddio'r dalent orau sydd ar gael. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg swyddfa Ewrop Greadigol yng Nghymru, sy'n cynghori cwmnïau, gan gynnwys cynhyrchwyr annibynnol, ynghylch ymgeisio am gyllid o raglen Ewrop Greadigol.

**Argymhelliad 14 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyrhaeddiad o 97% yng Nghymru cyn y newid i ddigidol.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson wrth Lywodraeth y DU y dylid nodi fel o'r meini prawf hanfodol sy'n llywio'r newid i radio digidol na ddylai'r cyrhaeddiad yng Nghymru fod yn llai o gwbl nag yng ngweddill y DU. Rydym wedi pwyso am gyrhaeddiad o 97% o leiaf ar gyfer radio digidol ledled Cymru.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2013 y bydd buddsoddiad parhaus gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â'r BBC a radio masnachol, i gefnogi'r broses o gyflwyno radio digidol. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn bryderus, hyd yn oed pan fydd y meini prawf arfaethedig yn cael eu bodloni ar lefel y DU, y byddai'r cyrhaeddiad ar gyfer radio digidol bron yn sicr yn is yng Nghymru.

**Argymhelliad 15 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod radio cymunedol yn darparu gwasanaeth allweddol ar gyfer trigolion lleol, gan adlewyrchu'r materion sy'n effeithio ar bobl a'u cymunedau. Am y rheswm hwn fe sefydlon ni'r Gronfa Radio Cymunedol yn 2007. Rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2014 fe ddosbarthodd Llywodraeth Cymru £100,000 y flwyddyn i orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru.

Yn sgîl pwysau ar gyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru a'r ffaith bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, nid oedd yn bosibl i'r Gronfa Radio Cymunedol barhau ar ôl mis Mawrth 2014. 2012/13 oedd blwyddyn olaf y Gronfa Radio Cymunedol i fod ond caniatawyd estyniad ac fe barhaodd y Gronfa am ddeuddeng mis arall i alluogi gorsafoedd radio cymunedol i ymchwilio i ffynonellau cyllid eraill ar gyfer mis Ebrill 2014 a thu hwnt. Daeth y Gronfa i ben yn y diwedd ym mis Mawrth 2014.

Er bod y Gronfa wedi dod i ben rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd gorsafoedd radio cymunedol o ran darparu gwasanaeth gwerthfawr ar gyfer trigolion lleol.

**Argymhelliad 16 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynnwys dyletswyddau iaith Gymraeg penodol ar gyfer Ofcom yn y Bil Cyfathrebu.

**Diweddariad:** Fel rhan o broses yr Adolygiad o Gyfathrebu rhwng 2011 a 2013, hysbysodd Llywodraeth Cymru yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon na fyddem yn dymuno bod y rheolau presennol ynghylch lleolrwydd yn cael eu llacio ymhellach na'u dileu. Yn arbennig, fe fynegon ni ein dymuniad hefyd y byddai unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys ymrwymiad i orsafoedd radio masnachol adlewyrchu iaith cymunedau lleol. O dan y ddeddfwriaeth bresennol nid oes rhwymedigaeth ar orsafoedd radio masnachol i adlewyrchu iaith cymunedau lleol yn eu hallbwn oni bai fod amod o'r fath wedi'i gynnwys yn y trwyddedau. Roedd y mater hwn, wrth gwrs, yn ffactor yn y trafodaethau ynghylch Cynllun Iaith Gymraeg Ofcom.

**Argymhelliad 18 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau papur newydd fel y gellir rhoi mesurau ymarferol ar waith os daw'n amlwg y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli, neu os bydd papurau newydd yn cau.

**Diweddariad:** Mae tîm sector y Diwydiannau Creadigol yn Llywodraeth Cymru yn cefnogi pob is-sector gan gynnwys papurau newydd a chyhoeddi. Fel un enghraifft, fe gefnogodd Llywodraeth Cymru Newsquest er mwyn sicrhau bod Pencadlys newydd ar gyfer Cymru yn cael ei agor yng Nghasnewydd, gan ddod â nifer sylweddol o swyddi yn niwydiant y cyfryngau print i'r ardal.

Hefyd, rydym yn ymwybodol iawn o faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau newyddion yn newid o fod yn rhai print i fod yn rhai ar-lein ac rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a lleol i adnabod ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gefnogi hyfywedd economaidd y diwydiant wrth i'r newidiadau hyn ddatblygu.

**Argymhelliad 19 (Derbyniwyd mewn Egwyddor):** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fwrw ymlaen gydag argymhellion adolygiad Hargreaves, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gynnydd yn rheolaidd.

**Diweddariad:** Cafodd y rhan fwyaf o argymhellion Hargreaves eu gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen o Adolygiad Hargreaves ac mae bellach yn canolbwyntio ar y cyfeiriad polisi a argymhellwyd gan Banel cyfredol Sector y Diwydiannau Creadigol ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r polisïau hyn wedi creu cynllun eglur a chydlynol sy'n rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r sector creadigol masnachol ac, fel y mae'r ystadegau economaidd yn dangos, mae Cymru'n cael llwyddiant sylweddol yn ei heconomi greadigol.

**Argymhelliad 20 (Derbyn):** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu pwrpas a rôl ei phanel Sector Diwydiannau Creadigol i randdeiliaid.

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf lle cafodd rhanddeiliaid y cyfle i gwrdd ag aelodau'r panel, yn ogystal â swyddogion gweithredol Pinewood a thîm y sector. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cynhyrchu yn y cyfryngau traddodiadol yn dal yn rhan bwysig o'r darlun economaidd yng Nghymru, ond bod y cyfryngau digidol hefyd yn hanfodol i lwyddiant economaidd fel is-sector sy'n tyfu'n gyflym ac felly bod angen ymyrraeth yn hynny o beth gan y Llywodraeth hefyd. Arweiniodd sylw Llywodraeth Cymru i'r cyfryngau digidol yn ogystal â chyfryngau traddodiadol at greu'r Gronfa Datblygu Digidol. Roedd hanner y 'Dwsin Digidol' yn Wythnos Ddigidol 2015, sy'n fusnesau a ddewiswyd fel patrymau enghreifftiol ar gyfer arloesi digidol, wedi cael cymorth o'r gronfa hon.

**Argymhelliad 21 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, i annog arloesi ac i feithrin modelau busnes newydd.

**Diweddariad:** Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Arloesi Cymru*, wedi cael ei chyhoeddi ac yn cael ei defnyddio i arwain polisi a buddsoddiadau. Mae'r strategaeth yn galw am ddiffiniad eang o arloesi gan gynnwys cefnogi arloesi cymdeithasol a'r diwydiannau creadigol. Ers yr adroddiad, mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cynorthwyo'r sector preifat i ddatblygu adeiladau ar gyfer busnesau sy'n addas ar gyfer y sectorau creadigol a diwylliannol, sef cangen o TechHub yn Abertawe a Chanolfan Arloesi Menter Cymru yng Nghaerffili.

Mae rhaglen Arloesi Agored wedi cael ei datblygu a honno'n galluogi cwmnïau Angori a chwmnïau llai i gydweithio ar brosiectau y gellir manteisio arnynt yn fasnachol a datblygu modelau busnes newydd.

Cafodd WEPSIN £220,000 gan raglen Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes Llywodraeth Cymru, i adeiladu ar lwyddiant athletwyr Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Delhi yn 2010 a Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. Roedd y fenter yn cefnogi'r nodau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 a bydd yn cefnogi'r Gemau Olympaidd yn Rio yn 2016 a'r tu hwnt i hynny. Cymysgedd o arbenigwyr ym meysydd Chwaraeon, y Byd Academaidd a Diwydiant yw'r rhwydwaith, gan fod yn fforwm unigryw ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i wella perfformiad ym myd y campau a byd busnes yng Nghymru.

Sicrhaodd Prifysgol De Cymru £50,000 o gyllid Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes (A4B) trwy Lywodraeth Cymru. Galluogodd cyllid A4B y Brifysgol i weithio gydag athletwyr elitaidd yng Nghymru a oedd yn paratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad ac i brofi a datblygu protocolau a pherifferolion newydd.

**Argymhelliad 22 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynigion gan Lywodraeth y DU i newid cyfreithiau mewn perthynas â hawliau eiddo deallusol a dylai wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn nodi y dylai unrhyw newidiadau fod yn addas ar gyfer anghenion Cymru.)

**Diweddariad:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i gwmnïau yn y sector creadigol ddeall eiddo deallusol ac mae'n archwilio opsiynau i roi cyngor o ansawdd ynghylch arfer gorau a chyfleoedd yn y maes hwn ac mewn meysydd eraill.

**Argymhelliad 23 (Derbyniwyd):** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull strategol o ddarparu hyfforddiant, ochr yn ochr â'i bolisïau eraill, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol.

**Diweddariad:** Buddsoddwyd yn sylweddol mewn darparu hyfforddiant ar gyfer y sector. Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn wedi cael ei wneud gan y Cynghorau Sgiliau Sector – Creative Skillset Cymru a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol – mewn partneriaeth gyda chyrff eraill yn y sector.

Cafodd Creative Skillset Cymru gyllid ar gyfer tri phrosiect gwahanol dan Raglen Cronfa Blaenoriaethau'r Sectorau a oedd â gwerth cyfunol o £1.1m.

Prentisiaeth yn y Cyfryngau Creadigol a Digidol
Prentisiaeth Lefel 4 yn y Cyfryngau Creadigol a Digidol – Llwybr y Cyfryngau Rhyngweithiol a Digidol. Mae'r prosiect hwn wedi cydgysylltu'r broses o ddarparu Prentisiaeth Lefel 4 yn y Cyfryngau Rhyngweithiol a Digidol. Mae prentisiaid wedi cael y cyfle i ddechrau eu gyrfaoedd yn y cyfryngau creadigol a digidol gyda chwmnïau.

Prentisiaeth mewn Ffasiwn a Thecstilau
Fe gydgysylltodd Creative Skillset y broses o gyflwyno Prentisiaeth Lefel 2 a 3 mewn Ffasiwn a Thecstilau yng Nghymru. Roedd y cymhwyster yn cynnig ystod o lwybrau sy'n ei gwneud yn bosibl i gymwysterau fod yn benodol ac yn berthnasol i'r sector yng Nghymru.

Darpariaeth Greadigol
Datblygodd Darpariaeth Greadigol ansawdd y ddarpariaeth addysgol mewn Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru. Mae hyn yn gysylltiedig â rhaglen Creative Skillset o gyrsiau a gymeradwyir gan y diwydiant. Nod y prosiect oedd cefnogi ymyriadau gan y diwydiant yng nghynnwys a dyluniad cwricwla a sbarduno ymgysylltiad rhwng cyflogwyr a byd addysg.

Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol
Lluniwyd Rhaglen Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol yn 2010 mewn ymateb i'r adroddiad Calon Cymru Ddigidol (Hargreaves, 2009). Fe wnaeth y rhaglen ddatblygu a darparu hyfforddiant hyblyg dan arweiniad y diwydiant ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr llawrydd yn y cyfryngau digidol a oedd yn gweithio neu'n byw yng Ngorllewin Cymru, y Cymoedd a Gogledd Orllewin Cymru. Cafodd y rhaglen hon dros bedair blynedd a hanner ei chefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae cymorth gyda hyfforddiant a sgiliau busnes gan yr Adran Addysg a Sgiliau ar gael i fusnesau yn y cyfryngau digidol fel y mae i fusnesau eraill yng Nghymru.

**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

24 Awst 2015

Annwyl Christine

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 14 Gorffennaf ynglŷn ag adnewyddu Siarter y BBC.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd Adnewyddiad Siarter nesaf y BBC, a byddwn yn ymateb erbyn 8 Hydref i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu chwarae rhan lawn a gweithredol yn y broses o adolygu'r Siarter. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac â'r llywodraethau datganoledig eraill, ynghyd â chynnal deialog barhaus ar y mater gyda'r BBC yng Nghymru ac ar lefel y DU.

**Blaenoriaethau Adnewyddu'r Siarter ar gyfer Cymru**

Bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Sicrhau bod digon o gyllid ar gael i BBC Cymru Wales ar gyfer rhaglenni newyddion, a rhai nad ydynt yn rhaglenni newyddion, yn Gymraeg a Saesneg.
- Diogelu digon o gyllid ar gyfer S4C.
- Atebolrwydd: yr angen i gryfhau'r trefniadau llywodraethu cyfredol sydd ar waith, ac ailystyried swyddogaeth Cyngor Cynulleidfa Cymru.
- Ymrwymiad parhaus i gynyddu nifer y cynyrchiadau 'Y Tu Allan i Lundain' a buddsoddiad y BBC / yr effaith ar yr economi yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys Cymru. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad parhaus gan y BBC i sicrhau bod Cymru'n ganolfan ar gyfer Cynyrchiadau Drama.
- Gwelliant parhaus yn y modd y caiff Cymru ei phortreadu ar gynyrchiadau rhwydwaith y BBC.
- Sicrhau bod BBC Radio Wales ar gael ar FM.
- Sicrhau fersiwn manylder uwch o BBC2 Cymru Wales.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a ffurfioli'r trefniadau ar gyfer cyfrannu at broses y Siarter**

Dros y misoedd diwethaf, bu Gweinidogion Cymru a'u swyddogion mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn chwarae rhan lawn o'r cychwyn cyntaf yn y trafodaethau i Adnewyddu'r Siarter. Rhaid i Gymru gael llais yn y trafodaethau hyn yn awr ac yn y dyfodol, neu fel arall gellid rhoi newidiadau ar waith yn y BBC nad ydynt yn cwrdd ag anghenion Cymru. Mae'n hanfodol fod y Siarter newydd yn adlewyrchu'n briodol y setliad datganoli cyfredol sy'n parhau i newid, a'i bod yn cydnabod ac yn amddiffyn buddiannau pobl Cymru.

Dechreuodd y gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r broses o Adnewyddu'r Siarter ymhell cyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai. Ers hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at John Whittingdale AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â darlledu, gan gynnwys y ffaith ein bod yn disgwyl cael ein cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ar adnewyddu Siarter Brenhinol y BBC, a hynny o'r cychwyn cyntaf.

Ym mis Mehefin, cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y BBC, Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban, ar y broses o adolygu Siarter y BBC. Roeddem yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ceisio dod i gytundeb yn yr Alban yn y lle cyntaf, gan fod ymrwymiad penodol i gyflawni hyn yn y papur gorchymyn, *"Scotland in the United Kingdom: An enduring settlement"*. Roedd Llywodraeth Cymru yn falch fod y model a ddatblygwyd yn berthnasol nid yn unig i'r Alban, ond hefyd i bob un o'r gwledydd datganoledig. Yn ogystal â ffurfioli swyddogaethau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, byddai cytundeb tebyg ar gyfer Cymru yn adeiladu mewn modd cadarnhaol ar ymrwymiadau Llywodraeth y DU yn y papur gorchymyn, *"Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n Para i Gymru"*.

Ers mis Mehefin, bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel Swyddogion, i ffurfioli Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg ar gyfer Cymru - un a fyddai'n diogelu safle cyfartal wrth y bwrdd i Gymru yn y trafodaethau i Adnewyddu'r Siarter. Yn ogystal, byddem yn disgwyl i unrhyw welliant yn atebolrwydd y BBC gael ei weithredu ar sail gyson ym mhob un o'r gwledydd datganoledig, gan gynnwys Cymru. Rydym wedi derbyn sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu trin llywodraethau datganoledig yn deg o ran eu cyfranogiad ffurfiol yn adolygiad y Siarter.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi darparu drafft o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon mewn perthynas ag adolygiad y Siarter. Adlewyrchiad uniongyrchol yw hwn o elfennau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Alban sy'n ymwneud â chadarnhau swyddogaeth y llywodraethau datganoledig yn y broses o adolygu'r Siarter. Mae'r elfennau a gynhwyswyd ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Alban, ond nad ydynt yn rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig ar gyfer Cymru, yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r dyletswyddau a roddir i'r BBC ar ôl adolygiad y Siarter – sef darparu adroddiadau blynyddol a datganiadau o'r cyfrifon i'r Senedd a'r Llywodraeth ddatganoledig berthnasol, ac ymddangos yn rheolaidd gerbron pwyllgorau perthnasol y Seneddau datganoledig. Mae'r Adran dros

Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cadarnhau mai'r nod yn syml yw hwyluso cytundeb sy'n sicrhau y bydd gan Lywodraeth Cymru gyfraniad sy'n gyfartal ag un yr Alban i'r broses o adolygu'r Siarter – proses sydd eisoes ar waith.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymwybodol o'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU ym mhapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi i ofyn i'r BBC adrodd yn ôl i Gymru, a chafwyd sicrwydd y byddant yn cydweithio â ni i ffurfioli hyn ochr yn ochr â'r trafodaethau cyfredol ar adolygu'r Siarter. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno mewn egwyddor i gynnal trafodaethau pellach pan lofnodir y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth cyntaf, gyda'r bwriad o ffurfioli ymrwymiadau ychwanegol mewn perthynas ag atebolrwydd parhaus y BBC i lywodraethau a chynulliadau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon, tebyg i'r rhai hynny sydd eisoes wedi eu cynnwys ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Alban. Cynhwysir y rhain mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig a fydd yn disodli'r gwreiddiol maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r drafft hwnnw bellach wedi'i drosglwyddo i Ymddiriedolaeth y BBC i'w ystyried ganddynt hwy. Byddaf yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth pan fyddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 16 Medi.

**Panel Cynghori ar y broses o Adolygu'r Siarter**

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 29 Gorffennaf i fynegi syndod a siom bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu panel cynghori ar y broses o adolygu'r Siarter heb ymgynghori o gwbl â Llywodraeth Cymru, nac yn wir ag unrhyw un o'r gwledydd datganoledig eraill. Mae'n fater o bryder i ni nad oedd unrhyw gynrychiolydd ar y Panel i adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion Cymru. Nodwyd hefyd mai prin oedd yr arbenigwyr ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a gynrychiolwyd ar y Panel yn gyffredinol.

Pwysleisiais fod angen i'r Panel ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid ledled y DU fel rhan o'r trafodaethau, gan gynnwys y llywodraethau datganoledig, i sicrhau bod ei gyngor yn adlewyrchu ac yn ystyried yn llawn anghenion pobl ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU.

**Ymgysylltiad â'r gwledydd datganoledig eraill**

Yn ystod misoedd Ebrill a Mai, ysgrifennais at fy swyddogion cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda'r bwriad o drefnu cyfarfod i drafod materion darlledu, yn enwedig felly Adnewyddiad y Siarter. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 4 Awst yn Glasgow. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd y byddem yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y broses o adnewyddu Siarter y BBC yn adlewyrchu ac yn blaenoriaethu'r buddiannau sy'n gyffredin rhyngom.

**Llythyr y Prif Weinidog at Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC**

Ar 17 Awst, ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Arglwydd Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, i dynnu sylw at y bwlch cynyddol rhwng y cyllid i Gymru a rhannau eraill

o'r DU, gan ychwanegu bod angen £30 miliwn ychwanegol i sicrhau bod y rhaglenni'n wir yn adlewyrchu bywydau pobl yng Nghymru.

Yng nghyd-destun y toriadau mae BBC Cymru Wales wedi eu hamsugno dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod angen £30 miliwn pellach, yn benodol ar gyfer rhaglenni Saesneg, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £50 miliwn. Byddai hyn yn sicrhau bod gan gynulleidfaoedd yng Nghymru orsaf deledu genedlaethol â hygrededd, un a allai ddarparu cynnwys o ansawdd da drwy gyfrwng y Saesneg, gan gynnwys drama a chomedi yn ogystal â chyfraniadau rhwydwaith posibl.

Mae'n bwysig pwysleisio na ddylid tynnu ein cais am gyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni Saesneg o'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer S4C (nac o'r £20 miliwn mae BBC Cymru Wales yn ei dderbyn ar gyfer rhaglenni Cymraeg). Rydym yn gwbl ymwybodol o'r rhan bwysig mae BBC Cymru Wales yn ei chwarae yn y gwaith o ddarparu cynnwys Cymraeg a dylai hyn, wrth gwrs, barhau.

**Datganiad Trawsbleidiol ar Ddarlledu**

Fel yr adlewyrchwyd yn y datganiad a gydlofnodwyd gan dri o arweinyddion pleidiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Gorffennaf, mae pryder sylweddol ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu BBC Cymru Wales ac S4C o ganlyniad i'r pwysau ar gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i'r BBC gadw at y datganiadau cyhoeddus a wnaeth y bydd y fargen a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf rhwng y BBC a Llywodraeth y DU mewn perthynas â ffi'r drwydded yn un niwtral o ran arian parod i'r BBC, ac na fydd yn effeithio ar wasanaethau. Nodwyd yn y datganiad fod rheolwyr y BBC wedi sicrhau na fydd y fargen 'setliad arian gwastad', felly, yn effeithio ar y cyllidebau yn BBC Cymru Wales nac yn S4C.

Roedd y datganiad yn mynegi pryder nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad Cenedlaethol cyn cytuno ar y fargen hon, a bod y ffaith fod Llywodraeth y DU a'r BBC yn gwneud penderfyniadau y tu ôl i ddrysau caeedig, a'r tu allan i broses adnewyddu Siarter y BBC, yn annemocrataidd.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno rhagor o wybodaeth ar y materion hyn pan fyddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 16 Medi.

Yn gywir

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

16 Medi 2015 – Papurau i'w nodi

| Rhif papur: | Mater | Oddi wrth | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | **Papurau cyhoeddus i'w nodi** | |
| 4 | Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) | Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad | Gohebiaeth i'r Cadeirydd yn rhoi gwybodaeth am egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) |
| 5 | Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog | Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus | Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Gorffennaf 2015 |
| 6 | Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) | Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi | Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor |

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Dame Rosemary Butler AM**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-21-15 Papur 4 / Paper 4

Llywydd
Presiding Officer

Lesley Griffiths AM
Minister for Communities and Tackling Poverty
Welsh Government
5th Floor, Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Your ref:
Our ref: PO/RB/AEJ

9 July 2015

Dear Lesley

During the debate on the General Principles of the Renting Homes (Wales) Bill in Plenary on 7 July, Members raised questions around whether the Bill complies with the European Convention on Human Rights. Such concerns were also raised in the Communities, Equalities and Local Government and Constitutional and Legislative Affairs Committees' reports on the Bill.

On two occasions during the debate you referred to my statement on legislative competence at the time of the Bill's introduction as evidence that the Bill complied with the human rights requirements.

You will be aware that my view on competence at the start of the legislative process is based on the information I have before me, ie the text of the Bill and the Explanatory Memorandum. It is the role of our committees to examine Bills in detail, to consult widely and to improve them through amendment. Given the complexity of the devolution settlement, it is perfectly proper for that detailed examination to raise issues of competence, including of compliance with the European Convention on Human Rights.

I do not expect the view that I give prior to introduction of a Bill to be used by the Government, or any other Member, to constrain that detailed scrutiny or as justification for a particular position.

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230

Llywydd
Presiding Officer

I am copying this letter to the Chair of the Communities, Equalities and Local Government Committee, the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the First Minister.

Rosemary

**Dame Rosemary Butler AM**
**Presiding Officer**

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Gwasanaethau**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LF/LA -/0705/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Awst 2015

Annwyl Christine,

Diolch ichi am eich llythyr 13 Gorffennaf ynghylch diwygio Llywodraeth Leol a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

Rydych wedi gofyn am wybodaeth bellach am y broses ar gyfer pennu manylion terfynol y map. Mae fy nghyhoeddiad ar 17 Mehefin yn rhoi eglurder pellach ar gyfluniad yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dyfodol ac yn nodi'r hyn sydd orau gennym ar gyfer y strwythur yn y dyfodol yn y De, y Canolbarth a'r Gorllewin tra'n hwyluso trafodaeth bellach am y Gogledd. Ceir cyfle anffurfiol bellach dros yr haf i bobl gyflwyno eu safbwyntiau inni.

Wrth gyhoeddi'r mapiau hyn, rydym yn ymwybodol nad oes cyfle wedi bod hyd yn hyn i aelodau'r cyhoedd, cyrff sydd â diddordeb a rhanddeiliaid gyflwyno eu safbwyntiau yn ffurfiol ar ein cynigion presennol. Yn wyneb natur y newidiadau sy'n cael eu cynnig, mae'n briodol bod ymgynghori ffurfiol yn rhan o'r broses a bod yr ymgynghori ffurfiol hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd. Rydym felly'n bwriadu ymgynghori ar y map fel rhan o Fil Draft Uno a Diwygio Llywodraeth Leol a gaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd.

Y bwriad yw i'r Bil drafft adlewyrchu'r ffaith bod dau opsiwn dewisol ar gyfer cyflunio'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru - 8 neu 9 o Awdurdodau Lleol newydd. Ochr yn ochr â'r Bil drafft, byddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori a fydd yn nodi ystod o faterion sy'n gysylltiedig â'r uno arfaethedig ac a fydd yn gwahodd safbwyntiau ar gyfluniad Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dyfodol. Wedyn mater i'r Llywodraeth ar ôl Etholiadau Mai 2016 fydd bwrw ymlaen â diwygio ac uno Llywodraeth Leol gan gynnwys y ddeddfwriaeth angenrheidiol. Byddai'r Cynulliad yn gorfod craffu ar hyn wrth gwrs.

A throi at Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, amlinellir yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani isod.

*Amlinelliad o'r hyn y mae Cyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog wedi'i gyflawni'n benodol yng Nghymru ers 2011.*

Mae pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol, yn dangos eu hymrwymiad i Gymuned y Lluoedd Arfog, ac mae hyrwyddwyr penodol a swyddogion arweiniol yn yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd wedi cael eu penodi i godi ymwybyddiaeth o'r Cyfamod Cymunedol a'i hybu ymhlith eu rhwydweithiau. Mae'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

digwyddiadau Hyrwyddwyr y Cyfamod Cymunedol yr ydym yn eu cynnal ddwywaith y flwyddyn yng Nghymru'n cynnig y cyfle i holl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, cyrff y trydydd sector a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddod ynghyd i rwydweithio, penderfynu sut i wella cyd-wasanaethau, rhannu arferion gorau a gwybodaeth. Mae'n amlwg bod y cydweithredu a'r rhwydweithio sy'n digwydd ar draws sefydliadau'n gwneud gweithgarwch o dan y Cyfamod Cymunedol yn real, ac yn cynnig cyfle ar gyfer cydgysylltu gwasanaethau.

O safbwynt cyflawniadau penodol ers 2011, mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi gwneud gwaith i ddod i ddeall anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardal yn well. Cynhaliwyd gweithdai cyhoeddus yn Ynys Môn a Chonwy a chynhaliwyd asesiadau o angen yng Nghasnewydd a Sir Ddinbych. Sefydlodd mwyafrif o'r Awdurdodau Lleol fforymau lleol a rhanbarthol a gweithio ar wella gwybodaeth. Mae gwybodaeth ar-lein wedi cael ei datblygu yng Nghaerffili, Sir Ddinbych, Abertawe a Wrecsam ac mae llinell gymorth wedi'i sefydlu yng Ngheredigion. Mae prosiectau penodol yn cynnwys darparu cyfleoedd mentora yn Ynys Môn, gweithio gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar y canolfannau gwybodaeth ac yn Wrecsam datblygiadau gyda Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf ar ddarparu llety â chymorth ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

Yn y Digwyddiad Hyrwyddwyr a gynhaliwyd ar 14 Mai yn Wrecsam, darparodd yr Awdurdodau Lleol astudiaethau achos a siarad am eu cyflawniadau, sef codi ymwybyddiaeth yng Nghaerffili, cynigion ar gyfer llety i gyn-filwyr yn Wrecsam a chymorth i gyfieithwyr o Afghanistan yn Sir Fynwy. Mae'r Awdurdodau Lleol hefyd yn cefnogi elusennau megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, gan gynnwys sefydlu canolfannau cyngor a gwybodaeth a lleoliadau allgymorth. Mae'r lleoliadau hyn yn enghraifft flaenllaw o'r Cyfamod Cymunedol ar waith gan fod llawer o'r canolfannau wedi cael eu sefydlu o ganlyniad i gydweithio rhwng y Lleng a phartneriaid yn yr awdurdodau lleol trwy grwpiau Cyfamodau Cymunedol lleol.

*Manylion unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch darparu Cyfamodau Cymunedol yng Nghymru.*

Cyfarfûm ag Anna Soubry AS yn Rhagfyr 2014. Mae'r trafodaethau'n cynnwys cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog ac arian y Cyfamod Cymunedol. Nid wyf wedi cyfarfod â'i holynydd Mark Lancaster AS eto. Er hynny, ysgrifennaf ato fel rhan o'r adolygiad o'r Pecyn Cymorth. Mae fy swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â Thîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn mynychu Grŵp Cyfeirio Cyfamod y DU.

*Manylion unrhyw werthusiad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o'r cymorth y mae'n ei roi i'r lluoedd arfog, gan gynnwys unrhyw feysydd ar gyfer gwella sy'n cael eu nodi gan werthusiad o'r fath.*

Mae swyddogion yn ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar fesurau Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan gynnwys adolygu'r data presennol a nodi bylchau yn yr wybodaeth, gan gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth o'r Arolwg Integredig o Gartrefi ac Arolwg Aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae trafodaethau a gynhaliwyd â'n partneriaid yn Nigwyddiad y Grŵp Arbenigol a Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog wedi arwain at ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol i Gymru. Bydd hyn yn rhoi strwythurau cyfathrebu a llywodraethu cryfach inni. Bydd hefyd yn ein galluogi i ledaenu gwybodaeth a rhannu arferion da i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae Brigâd 160 Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu'r fframwaith, gan fabwysiadu dull partneriaeth o sicrhau fframwaith sy'n gweddu i bawb.

*A gaiff pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ei adnewyddu ar ei lefel bresennol yn yr hydref.*

Rwyf yn bwriadu adfywio’r pecyn cymorth yn ystod yr haf. Bydd hyn yn cynnwys cymryd adborth a safbwyntiau gan randdeiliaid i ystyriaeth i sicrhau ein bod yn targedu adnoddau lle mae eu hangen. Rwyf hefyd yn ystyried yr adolygiad yn gyfle inni ymchwilio i’r manteision y mae’r Lluoedd Arfog yn dod â hwy i’n cymunedau.

Gallaf gadarnhau na fydd y gwaith adfywio’n arwain at ostyngiad yn lefel ein hymrwymiad a’n cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Yn gywir,



**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Gwasanaethau

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/0792/15

Christine Chapman AM
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

27th August 2015

Dear Christine

**Renting Homes (Wales) Bill**

Thank you for your letter of 14 July seeking a response to each of the recommendations contained in the Committee's Stage 1 report. Please find below responses to each recommendation in the order of the report.

**Recommendation 1**

I welcome both the Committee's recommendation and the agreement by the Assembly of the general principles of the Bill.

**Recommendation 2**

The approach adopted in the Bill, enabling consequential amendments and repeals to be made by way of subordinate legislation, as part of Bill implementation, follows the common practice with other Assembly Bills. I would also have some concerns around the danger of amendments being missed or not fully considered were they to be produced at this late stage.

**Recommendation 3**

I am content the Explanatory Memorandum accurately reflects the costs for training resulting from the Bill. However, I will consider further whether this position has altered following the completion of Stage 2.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Recommendation 4**

I note the Committee's recommendation and I am considering whether this does provide greater clarity on whether the position of the contract-holder has been improved.

**Recommendation 5**

I am content to consider applying the affirmative procedure in relation to regulations relating to fundamental terms as these represent the primary rights and responsibilities. I believe the negative procedure is more appropriate for supplementary terms.

**Recommendation 6**

I understand the Committee's aim. However, I believe this recommendation would disadvantage contract-holders. For example, verbally agreed additional terms in favour of the contract-holder would not be included in a default model written statement. Therefore, it could be in a landlord's interest to fail to issue a written statement allowing less favourable terms for the contract-holder to automatically apply. I also have concerns that such an approach would introduce a considerable degree of legal uncertainty about the status and application of contractual terms which had been agreed between the parties. In the event of a dispute over terms for which written statements had not been issued, the parties would still need to seek resolution in the courts.

**Recommendation 7**

I note the Committee's recommendation and can assure members of the Committee further consultation on the model contracts will be undertaken, including consultation directly with contract-holders.

**Recommendation 8**

A central aim of this Bill is to require written statements of contracts are issued to all contract-holders. While good progress is being made on addressing digital inclusion, I am concerned the recommendation would impact on people who are unable to access the internet or unable to use it; for example, some people living in rural areas, some older people.

**Recommendation 9**

I believe the negative procedure is more appropriate. There will be occasions where the model written statements will need to be updated as swiftly as possible, for example to reflect a change in common law.

**Recommendation 10**

I agree with the Committee's recommendation and confirm guidance on joint contract-holders' rights and responsibilities will be provided.

**Recommendation 11**

I have listened carefully to the comments of those supporting the current position in the Bill and those seeking the re-instatement of the moratorium. I do not believe evidence has been provided showing landlords will seek to agree shorter fixed terms in general. While understanding the Committee's concerns, I continue to believe removing the moratorium will encourage good landlords to rent to those they currently consider as high risk. This will help prevent these individuals being driven towards rogue landlords and poorer quality housing, and it will also help to prevent homelessness, which can sometimes require the use of Bed & Breakfast accommodation. Notwithstanding the removal of the moratorium, landlords will still wish to retain contract-holders for as long as possible as it does not make business sense for them to create churn and voids within their properties.

**Recommendation 12**

The proposals within the Bill around retaliatory eviction have been carefully considered to address the issues of disrepair and fitness for human habitation, while ensuring a landlord who meets his or her obligations is not disadvantaged. Widening the provision beyond what is proposed within the Bill could potentially result in all genuine possession claims being contested. Any potential inability of landlords to gain possession through a landlord's notice would be likely to impact negatively on investment within the private rented sector in Wales.

**Recommendation 13**

I consider the Bill as drafted is fair as it strikes the correct balance, enabling a contract-holder to defend a landlord's notice where a previous complaint exists.

**Recommendation 14**

The Bill as drafted provides for greater notice for contract-holders of a rent increase than applies at present. Current law provides for a minimum notice period of one month before the first rent increase whereas the Bill provides for a minimum notice period of two months.

For example, where a one year fixed term standard contract ends and has become a periodic standard contract, the Bill allows for a rent increase to take place subject to the two months' notice. Further increases are then limited to an annual basis.

**Recommendation 15**

The Bill already places a limit of one rent increase in a 12 month period under periodic standard and secure contracts.

**Recommendation 16**

I have listened to and understand the Committee's concerns in this area. However, I still consider supported standard contracts require the ability for temporary exclusions to take place, albeit in a limited and controlled manner. Such exclusions are essential in order for providers to act swiftly to protect residents and staff from serious harm. Removing this provision would make the supported standard contract unworkable in many instances and present a barrier for some people being accommodated in the sector.

**Recommendation 17**

As I stated in Committee, I consider guidance is necessary. Therefore, I have tabled an amendment to make provision for the Welsh Ministers to issue guidance to landlords on the exercise of the power to temporarily exclude contract-holders. I will consider how such a review process can be included within this guidance.

**Recommendation 18**

I am happy to consider how such a requirement can be included within the guidance to be issued.

**Recommendations 19 and 20**

I am unclear how these recommendations would improve current law. The ability for 16 and 17 year olds to rent needs to be extended to the private sector for it to be effective. As I have previously said at Committee, those aged 16 and 17 can get married, pay taxes, join the armed forces and some consideration is being given to extending the vote to this age group. I therefore consider enabling 16 or 17 year olds to rent a home in their own name, where a landlord is willing, to be a positive and progressive development in the law.

**Recommendation 21**

I have considered very carefully the Committee's view but I do not consider any amendment is necessary. Both human rights and Equality Act defences are pleaded in possession claims and the provisions in the Bill do not remove those rights.

**Recommendation 22**

The Bill does not make specific provision for a contract-holder to recover expenses in respect of estate management grounds A and B of Schedule 8. This is because compensation in these circumstances is payable to a contract-holder under section 29 of the Land Compensation Act 1973.

**Recommendation 23**

Section 152 is a fundamental provision which is therefore incorporated as a fundamental term of each contract, allowing for termination by the mutual consent of both parties. Whilst this mutual consent can be placed in writing (should the parties wish) it is not a requirement under the Bill. The section recognises the ability of both parties to end the contract by consent at any time rather than insist upon formal notices. In doing so, the Bill recognises the contract no longer has effect when occupation is given up by the contract-holder. However, should the contract-holder not give up occupation for some reason, the Bill makes provision for substitute occupation contracts.

A formal written notice is required under the Bill for any party wishing to leave the contract unilaterally. Therefore, an amendment requiring a mutual consent agreement to be in writing would likely bind the parties and work against a contract-holder who had changed their mind.

**Recommendation 24**

The purpose of section 214 is to ensure that the review of a landlord's decision is taken by the same court as the one to which the possession claim has been brought. It brings together the ability to consider all the relevant matters, as opposed to having to apply to set aside a possession notice in a county court pending determination of a judicial review claim in relation to the decision to make the claim in the High Court. If a contract-holder seeks a review under section 214(3), the court will consider that issue. If it considers the decision to make the claim was incorrect (etc.), it may then dismiss the possession proceedings. Section 214 allows for the efficient consideration of a landlord's claim and a contract-holder's claim as part of the same proceedings. The contract-holder will be a party to the landlord's possession claim and therefore in a position to decide whether to apply for a review of the landlord's decision.

**Recommendation 25**

An amendment of this nature would extend the Bill beyond housing law. It would be inappropriate for someone's actions away from the dwelling or locality to lead to eviction.

**Recommendation 26**

I would have concerns in raising the standard too high and too quickly as doing so would adversely affect the private rented sector. In the light of my statement during Committee, I have tabled an amendment to broaden the regulation-making power. This will allow this regulation-making power to be used on a progressive basis to raise standards.

**Recommendation 27**

Fitness for human habitation is the appropriate definition as it is a well-established legal concept which is well understood by the housing sector and courts.

**Recommendation 28**

I accept this recommendation and I am happy to place such a requirement on the face of the Bill.

**Recommendation 29**

These regulations for determining whether a dwelling is fit for habitation will contain a substantial amount of detail and I do not consider the affirmative procedure to be appropriate. The negative procedure is best suited to regulations of this type. The regulations made by the Welsh Ministers under section 2 of the Housing Act 2004 relating to Category 1 and Category 2 hazards, to which the regulations under section 94 will refer, are similarly made under the negative procedure.

**Recommendation 30**

I have already tabled an amendment broadening the regulation-making power which will enable regulations to be made in respect of the fitting of carbon monoxide detectors, smoke detectors and periodic electrical safety testing in all rented properties.

**Recommendation 31**

I am considering the use of existing regulation-making powers under the Housing (Wales) Act 2014 in this regard. This approach would identify specific provisions in the Bill as being relevant to determining whether an applicant for a licence under Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 is a fit and proper person.

**Recommendation 32**

It would not be practical to make provision in the Bill for definitive timescales for repairs. There will always be instances where repairs cannot reasonably be undertaken within set timescales. The Code of Practice being introduced under Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 refers to landlords carrying out repairs within a reasonable timescale.

**Recommendation 33**

The Bill already provides significant powers for the court to address where landlords have not carried out the necessary checks and investigations, including making any order it sees fit. Additionally, failing to follow the correct procedure would render the recovery of possession unlawful and a landlord could be prosecuted under the Protection from Eviction Act 1977.

**Recommendation 34**

I agree with the Committee and will provide guidance on the use of the abandonment procedure for landlords.

**Recommendation 35**

The purpose of the abandonment provision is to enable a landlord to regain possession of an abandoned property quickly and without the need for a court order, provided possession is recovered in accordance with the statutory provisions. This recommendation would remove the ability for landlords to regain possession any more quickly than is currently possible under the court process. As the abandonment procedure is likely to be used by community landlords in the main, I would be eager to see such properties re-let as quickly as possible.

In situations where abandonment is clear and obvious, properties may also be left unsecured and subject to vandalism, thus requiring landlords to act swiftly. In addition, cases of abandonment are not always associated with rent arrears.

**Recommendation 36**

Whilst such an amendment may initially have some attraction, the Residential Property Tribunal for Wales does not have the necessary capacity to deal with such disputes. Building in such capacity would be costly and would need to be fully considered and consulted upon.

**Recommendation 37**

The Explanatory Memorandum will be reviewed in light of Stage 2 proceedings and amended accordingly.

I trust this response is helpful and look forward to appearing before the Committee on 30 September.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon